



Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 20FED MEHEFIN, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2022)

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Menna Baines  
Alan Jones Evans  
Olaf Cai Larsen  
Llio Elenid Owen  
Elfed Williams

Elfed Wyn ap Elwyn  
Jina Gwyrfai  
Gwynfor Owen  
Meryl Roberts  
Sasha Williams

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Richard Glyn Roberts  
Eirwyn Williams  
Sedd Wag - Annibynnol

Peter Thomas  
Gruffydd Williams

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cyngorydd Menna Jones, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022-2023

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2022-2023

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 6. COFNODION

5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 7fed Ebrill 2022 fel rhai cywir

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG 14 - 39

I gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'w gymeradwyo gan yr Aelodau

## 8. POLISI IAITH A GWEITHGAREDDAU HYBU'R GYMRAEG: 40 - 46 ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi iaith, a sut mae'r adran yn mynd ati i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gwaith.

## 9. POLISI IAITH A GWEITHGAREDDAU HYBU'R GYMRAEG: 47 - 51 ADRODDIAD GAN ADRAN PLANT A CEFNOGI POBL

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi iaith, a sut mae'r adran yn mynd ati i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gwaith.

## 10. POLISI IAITH

52 - 74

I gyflwyno diwygiad o Bolisi iaith y Cyngor er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor ei drafod a'i gymeradwyo i symud ymlaen i gael cymerdwyaeth y Cabinet.



---

## PWYLLGOR IAITH DYDD IAU, 7 EBRILL 2022

---

**YN BRESENNOL:** Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)  
Judith Mary Humphreys (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Elin Walker Jones, Olaf Cai Larsen, John Pughe Roberts ac Elfed Williams.

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Bet Huws (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd – Meirionnydd), Mei Owen (Swyddog Canolfan Datblygu Iaith) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWDYD:** Y Cyngorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 5: Dafydd Gibbard (Y Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol).

Eitem 6: Huw Williams (Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd)

Eitem 7: Sioned E. Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cyngorwyr Beca Brown, Eric M. Jones, Eirwyn Williams ac Elwyn Jones (Is-gadeirydd y Cyngor)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 25 Ionawr 2022 fel rhai cywir.

Gofynnwyd am ddiweddariad ynglŷn â faint o dai sydd bellach wedi eu prynu oddi ar y farchnad agored gan yr Adran Dai. Nodwyd fod y cofnodion yn cyfeirio at un tŷ wedi ei brynu hyd at fis Ionawr 2022; holiwyd ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf. Bydd yr Ymgynghorydd Iaith yn gwirio'r nifer.

## 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: TÎM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddodd y Prif Weithredwr ar y datblygiad diweddar yn sgil newid defnydd o feddalwedd Microsoft y Cyngor fel ei fod ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod 60% o staff yn ei ddefnyddio yn wirfoddol; bydd hyn yn newid i fod yn fandadol o ddyddiad cychwyn y Cyngor newydd.
- Nodwyd bod y Cyngor yn arwain mewn amryw o bartneriaethau rhanbarthol megis GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru a Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gyda chyfrifoldeb dros sefydlu, trefnu a chynllunio'r cyfarfodydd. Ychwanegwyd fod y Cyngor yn gwirfoddoli i arwain ar yr uchod am ei fod yn gyfle i ddylanwadu ar ddefnydd iaith y cyrff drwy sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu drwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf a'n gweithredu polisi iaith y Cyngor.
- Soniwyd am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sydd yn cael ei fynychu gan y Prif Weithredwr ac yn gyfle i ddylanwadu ar ddefnydd sefydliadau cyhoeddus eraill o'r Gymraeg.
- Mynegwyd siom yn rhai sefydliadau ble roedd rhaid brwydro i gael cyfrannu yn y Gymraeg mewn rhai cyfarfodydd. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn un sefydliad ble roedd ychydig iawn o ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu cyfieithydd. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor ohebu yn gyhoeddus efo'r Llywodraeth i fynegi siom.
- Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y prif feysydd yr arweiniai arnynt a nododd enghreifftiau o geisio dylanwadu ar ddefnydd yr iaith yn y meysydd hynny. Enghreifftiau o hyn oedd wastad holi am gopiau Cymraeg o adroddiadau ym mhob cyfarfod a gwneud yn siŵr fod darpariaeth cyfieithu ar gael yn enwedig mewn cyfarfodydd ar lein.
- Credwyd fod yr enghreifftiau uchod yn ysgogi eraill i ofyn yr un cwestiynau a bod gwelliant i'w weld o gymharu â'r sefyllfa ddeg mlynedd yn ôl.
- Cyfeiriwyd at yr Agenda Mwy na Geiriau, gwaith partneriaethau a chydweithio o fewn y meysydd gofal a diogelwch cymunedol a rôl y Cyfarwyddwr o fewn Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel cyswllt swyddogol. Manylwyd am y Fforwm Mwy na Geiriau gan nodi fod cymeradwyaeth cenedlaethol wedi ei dderbyn am waith y fforwm yn y Gogledd sydd yn rhannu ymarfer da a chydweithio.
- Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod hi'n cyfrannu yn y Gymraeg ym mhob Cyfarfod o'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ynghyd â nifer o aelodau eraill a bod hynny yn cael ei annog a'i werthfawrogi gan Gadeirydd a Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd.
- Soniwyd am lansiad Maethu Cymru a'r gwaith ar y cyd i ddylanwadu a llwyddo i gael y logo yn Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn ail.
- Adroddodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol ar y Gwasanaeth Cyfreithiol gan nodi ei fod yn wasanaeth bach o ran maint ond yn gorgyffwrdd ag Adrannau eraill drwy ddarparu cefnogaeth gyfreithiol a phriodoldeb. Soniwyd am y gefnogaeth sydd yn cael ei ddarparu i'r Crwner o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol yn ogystal

â'r uned etholiadol.

- Amlygwyd fod y Cyngor yn arwain ar faterion rhanbarthol gan nodi fod y gwasanaeth cyfreithiol wedi bod yn cyfrannu o ran llywodraethant y materion yma. Golyga hyn fod y gwasanaeth yn galluogi i roi rôl flaenllaw i'r Gymraeg wrth sefydlu'r partneriaethau rhanbarthol a chreu hyder bod cytundebau cyfreithiol technegol yn gallu cael eu cynhyrchu yn Gymraeg. Ychwanegwyd bod yr un statws bellach yn cael ei roi i ddogfennau cyfreithiol Cymraeg a Saesneg a'i bod bellach yn anghyffredin peidio derbyn fersiynau dwyieithog o ddogfennau, sy'n ddatblygiad calonogol iawn.
- Manylwyd ar y gwasanaeth Crwner a'r ansicrwydd diweddar ynghylch uno'r gwasanaeth i fod yn wasanaeth Gogledd Cymru. Adroddwyd y bydd y gwasanaeth yn parhau fel gwasanaeth Gogledd Orllewin Cymru rhwng Gwynedd a Môn ble bydd yn haws sicrhau gweithrediad Cymreig y gwasanaeth.
- Cyfeiriwyd at ddefnydd y gwasanaeth cyfreithiol o gomisiynu gwaith allanol gan adrodd bod hyn weithiau yn anorfod. Soniwyd am yr heriau o ddarganfod locums Cymraeg gan bwysleisio mai'r nod yw penodi Cyfreithwyr Cymraeg. Adroddwyd bellach bod pecynnau gwell yn cael eu cynnig ar gyfer recriwtio gan obeithio gallu denu mwy o siaradwyr Cymraeg i'r swyddi.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor i holi cwestiynau:

- Mynegwyd balchder yn yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud i arwain y ffordd i eraill ac i greu gweithlu dwyieithog a diolchwyd am y gwaith hwn.
- Cefnogwyd y syniad o ohebu'n ffurfiol efo'r cyrff cyhoeddus, yn enwedig Llywodraeth Cymru ac o bosib y Bwrdd Iechyd i fynegi siom yn eu hymdrechion i alluogi swyddogion i gyfrannu yn rhwydd yn y Gymraeg mewn cyfarfodydd. Cefnogwyd yr uchod yn unfrydol gan yr Aelodau.
- Credwyd fod y Cyngor yn chwarae rôl arweiniol a phwysig o ran sicrhau parch i'r Gymraeg mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol a diolchwyd am y gwaith yma. Ychwanegwyd ei fod yn galonogol iawn fod y Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb hwn.
- Teimlwyd fod nifer o'r sefydliadau cyhoeddus yn awyddus i greu newid a gwella ond ddim yn siŵr sut i ddatblygu deunydd iaith dwyieithog yn y gweithlu. Cwestiynwyd os ydi hi'n bosib i Gyngor Gwynedd roi cynllun gwaith iddyn nhw er mwyn eu cynorthwyo.
- Cytunwyd y dylid tynnu'r gair 'Council' o enw'r Cyngor.
- Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am ei holl waith, gwaith ychwanegol i'w gwaith dydd i ddydd. Adroddodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol ei bod wedi derbyn adborth fod yr arweiniad hwn gan y Cyfarwyddwr yng nghydestun yr iaith Gymraeg yn rhoi hyder i eraill ac yn eu hysgogi i ddefnyddio'r iaith.
- Holiwyd y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol os oedd cyfathrebu yn digwydd efo Ysgolion y Gyfraith mewn Prifysgolion fel Caerdydd neu Lerpwl er mwyn helpu efo recriwtio Cyfreithwyr i'r Cyngor.
- Holiwyd pe bai anghydfod rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg o ddogfen Gyfreithiol pa fersiwn fyddai yn cymryd blaenoriaeth.
- Gofynnwyd pam bod cyfeiriadau Saesneg ar y rhestr etholwyr ac os oes modd

derbyn y bas-data yn Gymraeg. Mynegwyd bod materion tebyg yn wir am Adran Gynllunio.

- Canmolwyd y gwasanaeth Cyfreithiol am eu datblygiadau yng nghyd-destun yr iaith o ddatblygu termau newydd cyfreithiol yn y Gymraeg. Cydnabyddwyd ei bod yn anodd denu cyfreithwyr Cymraeg; holiwyd os oedd cefnogaeth yn cael ei roi i'r locums i ddysgu neu ddatblygu yn y Gymraeg.

Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr:

- Mai Gwynedd sydd yn arwain ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn y sector gyhoeddus ers degawdau a bod asiantaethau, Cynghorau a chyrff eraill wastad yn edrych ar beth mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud. Croesawyd y cyfrifoldeb hwn a nodwyd ei bod yn hanfodol bod y gwaith da yn parhau.
- Gwnaethpwyd sylw fod y gwasanaeth cyfieithu gorau yn y wlad yng nghyngor Gwynedd.
- Soniwyd am y gwaith sy'n cael ei wneud i newid enw'r Cyngor a bod nifer o rwystrau cyfreithiol biwrocraidd wedi codi dros y blynyddoedd. Adroddwyd, efo cymorth y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, bod cyfreithiwr allanol wedi ei gomisiynu i helpu a bellach mae'r Prif Weithredwr yn ffyddiog y gellir gwneud newid arwyddocaol.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu:

- Ei bod yn bosib i Gyngor Gwynedd rannu enghreifftiau o ymarfer da efo'r sefydliadau cyhoeddus er mwyn eu cynorthwyo. Ychwanegwyd bod y Llywodraeth wedi sefydlu uned newydd dan arweiniad Jeremy Evans er mwyn rhoi sylw penodol i'r Gymraeg. Awgrymwyd y byddai'n syniad anfon y llythyr y cyfeiriwyd ato yn flaenorol at sylw'r Gweinidog ac at sylw Jeremy Evans.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol:

- Ei fod yn dueddol o chwilio am bobl profiadol i'w recriwtio fel Cyfreithwyr yn y Cyngor yn hytrach nag ymgeiswyr sydd newydd raddio, oni bai am y cyfleoedd hyfforddeion proffesiynol.
- Bod deddfwriaeth ddwyieithog yng Nghymru, golyga hyn nad oes statws penodol i'r naill iaith na'r llall. Nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod y cyfieithiad yn gywir ond bod y dehongliad yn cael ei wneud drwy gymharu â chyfeirio at y ddwy iaith; cadarnhawyd bod y ddau fersiwn efo statws.
- Y byddai'r uned etholiadol yn edrych ar y mater o gyfeiriadau Saesneg ar y rhestr etholwyr gan weld beth sy'n bosib.
- Ei bod yn her i'r locums di-Gymraeg weithio i'r Cyngor ond eu bod nhw efo agwedd gadarnhaol a parod i gydweithio. Cyfeiriwyd at achosion ble mae'r gwaith papur yn Gymraeg a bod cefnogaeth a mentora yn cael ei ddarparu i'r locums. Adroddwyd fod y berthynas yn adeiladol a chynhyrchiol a bod dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r iaith. Nodwyd er nad yw'r locums yn dysgu'r Gymraeg eu bod yn sicr yn ymgyswrtu ag egwyddor Cyngor Gwynedd.

#### **PENDERFYNIAD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
- **Cytunwyd i'r Prif Weithredwr anfon llythyr at y Llywodraeth ar ran y Pwyllgor Iaith yn mynegi siom nad oes modd i swyddogion Cyngor Gwynedd ac eraill gyfrannu yn rhwydd drwy'r Gymraeg mewn cyfarfodydd**



**a drefnir gan Lywodraeth Cymru bob amser a'u hannog i sicrhau bod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn ddiodyn mewn cyfarfodydd.**

**6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd gan nodi fod yr Adran yn delio o fewn y byd peirianyddol sydd yn cael ei ystyried yn ddiwydiant eithaf Seisnigaidd. Arweinia hyn at broblemau recriwtio staff â sgiliau ieithyddol o safon uchel. Adroddwyd bod yr Adran yn gweithio ar nifer o brosiectau a chynlluniau i helpu staff i gyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi ac i wella sgiliau ieithyddol eu gweithlu; ceir manylion am y prosiectau hyn yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at y pwyntiau canlynol yn yr adroddiad:

- Diolchwyd i'r Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg am eu gwaith yn cefnogi staff yr Adran i asesu gallu ieithyddol eu hunain ac i ddarparu hyfforddiant pellach pe bai angen.
- Soniwyd am unigolion o fewn yr Adran sydd wedi gwneud cynnydd ac yn cael eu hannog i siarad Cymraeg o ganlyniad i gynlluniau fel y Cynllun Cyfeillion neu'r Cynllun Arfer drwy'r Brifysgol.
- Nodwyd bod yr Adran yn annog timau i gynnal sgysiau drwy'r Gymraeg. Cydnabyddwyd bod y cyfnod clo wedi amharu rhywfaint ar y cynnydd hyn a bwriedir ail afael yn y gefnogaeth i'r timau i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith dydd i ddydd y gweithlu.
- Pwysleisiwyd y bydd yr Adran yn ceisio ymestyn eu defnydd o'r iaith Gymraeg yn fewnol a gyda chyrrff eraill fel contractwyr ac ymgynghorwyr ymhellach drwy ohebu'n Gymraeg; credwyd fod hyn yn dangos effaith ac yn cael dylanwad.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Diolchwyd am y cyflwyniad ac am holl waith yr Adran. Nodwyd bod llwyddiant y Cynllun Adfer drwy'r Brifysgol yn ddiddorol iawn a holwyd os yw Cynghorau a Sefydliadau eraill yn ymwybodol ohono ac os oedd modd ei farchnata.
- Gofynnwyd os yw'r cyrsiau i staff dderbyn cymwysterau proffesiynol peirianwyr yn cael eu cynnig yn Gymraeg, ac os ddim, os oes lle i ofyn am gymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i wneud yn siŵr fod y cyrsiau yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Cwestiynwyd beth mae'r sefydliadau Addysg yn ei wneud i helpu'r Adran sydd yn ceisio darparu gweithlu Gymraeg gyda'r cymwysterau perthnasol.
- Mynegwyd sylw am eirfa dechnegol sy'n perthyn i'r maes ac awgrymwyd ei bod yn bosib parhau i gynnal sgysiau yn y gwaith yn Gymraeg er fod y termau yn Saesneg. Credwyd ei bod yn bwysig trafod y gwaith yn Gymraeg tra'n parhau i ddefnyddio'r eirfa dechnegol Saesneg i godi hyder staff.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd:

- Mynegwyd nad oedd gwaith yn cael ei wneud gan yr Adran i hyrwyddo'r Cynllun Adfer ond yn hytrach adrodd yn ôl rhwng y Cyngor a'r Brifysgol. Ychwanegodd yr Ymgynghorydd iaith fod y gwasanaeth iaith yn ran o'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y prosiect hwn. Nodwyd ei fod yn brosiect ymchwil gan y Brifysgol gyda'r Brifysgol yn arwain arno gyda nifer o gyrrff cyhoeddus eraill wedi cymryd rhan yn y gwaith

ymchwil. Credwyd bod y cyfrifoldeb yn disgyn ar y Brifysgol i rannu yr ymarfer da a hyrwyddo llwyddiant y Cynllun. Adroddwyd bod trywydd y gwaith wedi cymryd cyfeiriad gwahanol o ganlyniad i'r pandemig ac nad oedd diweddariad diweddar wedi ei dderbyn. Ategwyd y gall y gwasanaeth iaith ofyn am ddiweddariad gan y Brifysgol a holi beth yw'r cynlluniau i ehangu'r cynllun ar gyfer y dyfodol. Ychwanegwyd fod yr adborth gafodd ei dderbyn gan y Brifysgol wedi bod yn bositif iawn.

- Adroddwyd bod cynnydd i'w weld ble mae rhagor o gyrsiau yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd hefyd bod staff yr Adran yn fwy parod i ofyn am gyrsiau drwy'r Gymraeg. Y tueddiad yw bod cyrsiau gradd fel arfer yn Saesneg a cyrsiau BTEC weithiau yn cael eu cynnig yn Gymraeg. Credwyd bod cyfle i roi perswâd cryfach ar y byd Addysgiadol a perswâd politicaidd ar y Coleg Gymraeg Cenedlaethol.
- Cytunwyd â'r sylw ynglŷn a'r eirfa dechnegol sy'n perthyn i'r byd peirianyddol. Nodwyd bod enghreifftiau o lwyddiannau i'w gweld, adroddwyd bod 'chylchfan' yn cael ei ddefnyddio heddiw ond deg mlynedd yn ôl 'roundabout' oedd yn cael ei ddefnyddio rhan amlaf. Credwyd fod pethau bychain fel hyn yn gwneud gwahaniaeth ac yn ehangu geirfa y staff.

## **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## **7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ECONOMI A CHYMUNED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Economi a Chymuned a cyfeiriodd yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod lleihad bychan iawn i'w weld yn nifer y staff sydd wedi cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Credwyd bod hyn yn adlewyrchiad o'r cynnydd yn y nifer o staff dros dro a benodwyd yn ystod y flwyddyn diweddar e.e. wardeiniaid ychwanegol er mwyn ymateb i'r sefyllfa cofid.
- Adroddwyd bod cyfleoedd wedi codi i ddatblygu iaith y sawl sydd ddim yn cwrdd â'r gofynion. Nodwyd bod unigolion wedi manteisio ar y cyfleoedd ac wedi gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r anogaeth i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Ychwanegwyd bod heriau yn bodoli wrth gwblhau hunan asesiad iaith oherwydd bod nifer o staff tymhorol dros dro o fewn yr Adran a rhai bellach wedi gadael.
- Amlygwyd rhai meysydd gwasanaethau newydd gafodd eu cyflwyno yn ystod y cyfnod cofid. Yma cymerwyd y cyfle i roi pwyslais ar ddarparu gwybodaeth drwy'r Gymraeg a hyrwyddo gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.
- Adroddwyd bod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac Archifdai yn adnoddau gwerthfawr i deuluoedd sy'n galluogi plant i glywed y Gymraeg ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mynegwyd pwysigrwydd y gwasanaeth Archifau sy'n paratoi pecynnau gwybodaeth a deunyddiau Cymraeg i Ysgolion Gwynedd, bellach roedd mwy o bwyslais ar yr adnodd yma.
- Cyfeiriwyd at y gwaith hyrwyddo'r diwylliant Cymreig sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau. Soniwyd am y gwaith ar effaith cynnydd ymwelwyr y Sir ar yr iaith sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Nodwyd bod mesuryddion bellach yn eu lle i fesur yr effaith ar iaith y Sir.

- Mynegwyd disgwyliad yr Adran i bartneriaethau sy'n cydweithio â nhw i ddarparu deunydd yn ddwyieithog. Ychwanegwyd fod yr Adran yn sicrhau bod gwefannau ac apiau ar gael yn ddwyieithog yn ogystal â sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg i Siroedd a phartneriaethau eraill. Adroddwyd bod yr Adran wedi cryfhau'r gofynion iaith fel amod mewn tendrau wrth rannu cytundebau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

- Diolchwyd am yr adroddiad llawn a mynegwyd y byddai'n ddiddorol gweld beth fydd canlyniad y gwaith ar effaith ymwelwyr ar yr iaith gan gydnabod maint y dasg.
- Holwyd pryd fydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi.
- Gwnaethpwyd sylw bod lleoliad yn chwarae rhan ar ba mor niweidiol gall twristiaeth fod ar iaith mewn ardal benodol. Croesawyd y gwaith hwn a chredwyd y bydd y canlyniadau yn ddiddorol.
- Gofynnwyd a yw'n bosib mesur faint o dwristiaeth mae hanes, iaith a diwylliant Cymru yn llwyddo i'w ddenu i Wynedd ac i Gymru sef twristiaeth fwy diwylliannol.
- Mynegwyd siom fod y Cyngor Celfyddydau ddim yn cefnogi prosiectau sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Economi a Chymuned:

- Bod llawer o ffactorau yn cyfrannu at effaith ymwelwyr ar yr iaith ac nad yw'n hawdd dadansoddi'r effaith. Adroddwyd bod y gwaith hwn bellach wedi ei gomisiynu. Credwyd y bydd y canlyniad yn hynod o ddiddorol a byddai'r Adran yn hapus i rannu'r wybodaeth efo'r Pwyllgor yn y cylch nesaf.
- Nodwyd bod gwaith ar y Cynllun Economi Ymweld wedi ei baratoi ac wedi derbyn cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cyfnod ymgynghori. Gobeithiwyd y bydd y gwaith ymgynghori yn dod i ben ym mis Mehefin. Rhagwelir ar ôl yr haf bydd y Cynllun Economi Ymweld yn cael ei gymeradwyo. Nodwyd bod y gwaith ar adnabod mesuryddion yn digwydd ar hyn o bryd a bydd gan yr Adran well syniad o'r dangosyddion erbyn yr haf.
- Cytunwyd ar y sylw bod lleoliad yn ffactor ar effaith twristiaeth ar iaith ardal benodol. Amlygwyd pe bai llawer o dai Air B&B mewn pentrefi yna gall hyn gael effaith negyddol ar iaith o gymharu ag effaith ymwelwyr ar drefi mwy.
- Nad oes data yn bodoli i ddangos faint o dwristiaeth gafodd eu denu i'r ardal ar sail diwylliant yn unig. Credwyd ei fod yn gyfuniad o ffactorau sy'n cynnwys diwylliant, amgylchedd ac atyniadau'r ardal. Yn hytrach mae'r cynllun sydd wedi bod yn cael ei weithredu wedi bod yn canolbwyntio ar geisio ymestyn y tymor fel bod twristiaeth yn ymweld trwy'r flwyddyn ac nid yn unig yn ystod tymor yr haf. Adroddwyd bod hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y swyddi a'r cyflogau sy'n cael eu cynnig yn y sector. Ychwanegwyd bod Hafan y Môr bellach yn cynnig cytundebau blynyddol yn hytrach na tymhorol fel bod y staff yn cael cyflog trwy'r flwyddyn. Ategwyd fod yr Adran yn ceisio canolbwyntio ar dwristiaeth ddiwylliannol sydd yn dueddol o yn ymweld allan o dymor ac yn edrych ar gryfhau gwerthu diwylliant Cymreig fel atyniad ynddo ei hun.
- Adroddwyd nad yw'r Cyngor Celfyddydau wedi bod yn gwrthwynebu prosiectau ond yn hytrach wedi bod yn blaenoriaethu adnoddau a heb fod yn hyrwyddo.

Credwyd fod cyfle yma i ddylanwadu, nodwyd bod yr Adran yn cydweithio ac eisoes wedi cychwyn tynnu eu sylw i'r cyfleoedd maent yn ei golli.

#### **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

### **8. DIWEDDARIAD AR WAITH HUNANIAETH – MENTER IAITH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu. Darparwyd trosolwg o waith a blaenoriaethau Hunaniaeth, Menter Iaith Gwynedd. Cyfeiriwyd at yr adroddiad sydd yn manylu ar brosiectau amrywiol y fenter a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Anogwyd yr Aelodau i wylio'r fideos gan gyfeirio at y fideo ymwybyddiaeth iaith; gellir gweld y dolenni cyswllt ar gyfer y fideos yn yr adroddiad.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau holi ymhellach:

- Holwyd ynghylch y meddylfryd o symud Hunaniaeth oddi wrth y Cyngor.
- Cyfeiriwyd ar y fideo ymwybyddiaeth iaith gafodd ei greu gan y tîm Hunaniaeth oedd yn cyfeirio at y saith peth pwysig am hanes Cymru; credwyd fod y fideo yn wych ac yn adnodd pwerus. Cadarnhawyd bod fersiwn efo is-deitlau Saesneg o'r fideo hefyd ar gael.

Eglurwyd bod y grŵp strategol yn awyddus i Hunaniaeth fod yn enbyd fwy annibynnol oddi wrth y Cyngor ac y byddai manteision i hynny, nodwyd bod llawer o Fentrau iaith eraill yn fentrau cymunedol. Ychwanegwyd y byddai'n rhaid sicrhau cynaliadwyedd y fenter i'r dyfodol. Bydd diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor yn ystod y tymor newydd.

#### **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

### **9. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith oedd yn nodi'r cwynion yn ogystal â'r enghreifftiau o lwyddiant wrth hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Cyngor.

Soniwyd am y datblygiadau diweddar gan gyfeirio at y sesiynau ymwybyddiaeth iaith i staff y Cyngor sydd wedi ail ddechrau yn rhithiol yn ddiweddar. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu rhedeg gan yr Ymgynghorydd Iaith a'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg ac wedi derbyn adborth positif iawn; bydd y sesiynau yn parhau ac yn cael eu cynnig i fwy o Adrannau ar draws y Cyngor.

Cyfeiriwyd at y cwynion gan sôn am y dyfarniad diweddar yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch gofynion iaith hysbyseb swydd y Prif Weithredwr. Adroddwyd bod camau gweithredu bellach wedi eu cymryd gan bwysleisio nad oedd yr achos na'r dyfarniad hwn yn adlewyrchiad o drefniadau arferol y Cyngor. Manylwyd ar yr amodau newydd sydd bellach mewn lle fel rhan o'r polisi recriwtio; bydd yr amodau hynny yn cael eu hychwanegu at y polisi iaith. Golyga hyn y bydd y gofynion iaith yn cael eu nodi yn glir bob tro.

Adroddwyd ar rai o ymholiadau diweddar, rhai yn rhan o ymholiadau cenedlaethol ehangach; gellir gweld manylion yn yr adroddiad. Soniwyd hefyd am y dair cwyn gafodd

eu derbyn yn ymwneud â pholisi iaith y Cyngor; un o ganlyniad i faterion TG sydd yn y broses o geisio cael eu datrys a gwaith pellach ar y gweill i fynd i'r afael a'r mater. Nid oedd un cwyn yn berthnasol i'r Cyngor am nad oedd gan y Cyngor rym i orfodi ar faterion iaith busnesau yn y sector breifat. Datryswyd y gwyn olaf am bamffled uniaith Saesneg a dderbyniwyd gan y cyhoedd; trefnwyd i gyfieithu'r daflen yn sydyn yn ogystal â gwirio a diweddarau deunyddiau pellach o fewn yr Adran dan sylw.

Rhoddydwyd cyfle i'r aelodau holi ymhellach:

- Tynnwyd sylw fod yr un math o gwynion a materion yn codi eu pennau o gymharu â blynyddoedd eraill.
- Diolchwyd am yr adroddiad.

#### **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Cymerwyd y cyfle ar ddiwedd y cyfarfod i estyn cydymdeimlad y Pwyllgor at deulu Aled Roberts, Comisiynydd yr Iaith yn dilyn ei ymadawiad diweddar.

Dechreuodd y cyfarfod am 10yb a daeth i ben am 11:45yb

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>20 Mehefin 2022</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Mair Williams Ymgynghorydd Iaith</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'w gymeradwyo gan yr Aelodau</b>

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn unol a gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "*lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*"

1.2 Mae'r Safonau yn gosod rhai gofynion penodol ar gyfer adrodd blynyddol (158, 164 ac 170), gan nodi bod rhaid i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
  - bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
  - bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
  - bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
  - nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth uchod, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y cyhoedd a Chomisiynydd y Gymraeg o waith y Cyngor yng nghyd-destun y safonau a hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg, ac unrhyw wybodaeth am gamau penodol a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.

- 1.4 Gan fod gan y Pwyllgor Iaith gyfrifoldeb am gadw trosolwg ar weithrediad y Safonau Iaith, mae'r adroddiad a atodir, ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2022, yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i'r aelodau, ac er mwyn ei gymeradwyo ganddynt i'w gyhoeddi.
- 1.5 Bydd angen i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2022.

## **2 CRYNODEB O'R ADRODDIAD**

- 2.1 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth allweddol am drefniadau recriwtio a staffio, sydd yn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn parhau i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddi-ofyn a lle bynnag y mae ei angen ar draws y Cyngor. Mae'r data allweddol yn cynnwys:
- 99.1% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar rhyw fath o sgiliau yn y Gymraeg.
  - 91% o staff yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd (yn ôl asesiadau sydd wedi eu cwblhau)
  - 909 o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.
- 2.2 Rhoddir gwybodaeth hefyd am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn i wella trefniadau a sicrhau y gwasanaeth dwyieithog gorau i drigolion, gan gynnwys:
- Sefydlu trefniadau newydd ar gyfer cyfarfodydd hybrid gyda chyfieithu ar y pryd
  - Sefydlu trefniadau hunanasesu adrannol newydd er mwyn monitro cydymffurfiaeth gyda'r Safonau a threfniadau adrodd blynyddol i'r Pwyllgor Iaith er mwyn i adrannau adrodd ar weithgareddau hybu a hyrwyddo ehangach.
- 2.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai o'r heriau y bydd yr Uned Iaith a Chraffu a gwasanaethau ar draws y Cyngor, yn rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog a'r cynnig rhagweithiol Cymraeg.

## **3 ARGYMHELLION**

- 2.1 Gofynnir i'r aelodau:
- dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol,
  - cynnig unrhyw sylwadau ar y materion sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, a:
  - cymeradwyo'r adroddiad i gael ei gyhoeddi erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2022.



**ADRODDIAD BLYNYDDOL**  
**CYNGOR GWYNEDD**  
**AR WEITHREDIAD SAFONAU'R**  
**GYMRAEG**

**Ar gyfer y flwyddyn 2021-22**

---

**Cynnwys**

**RHAGAIR**

**CRYNODEB**

- 1. Cefndir - dyletswydd y Safonau**
- 2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau**
- 3. Adlewyrchu ar y flwyddyn – 2021-22**
  - 3.1 Camau gweithredu i gryfhau cydymffurfiaeth
  - 3.2 Heriau wrth symud ymlaen
- 4. ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170**
  - 4.1 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg
  - 4.2 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
  - 4.3 Safon 154: Adrodd ar gategoreiddio swyddi
  - 4.4 Adrodd ar gwynion iaith



## **RHAGAIR**

gan Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd, gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg

[i'w ychwanegu yn y drafft terfynol]

DRAFFT

## CRYNODEB



Trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer cyfarfodydd hybrid gyda chyfieithu ar y pryd.

Trefniadau hunanasesu adrannol newydd wedi eu sefydlu er mwyn monitro cydymffurfiaeth gyda'r Safonau a threfniadau adrodd blynyddol i'r Pwyllgor Iaith er mwyn i adrannau adrodd ar weithgareddau hybu a hyrwyddo ehangach.



### **Sgiliau iaith y gweithlu:**

**99.1%** o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar rhyw fath o sgiliau yn y Gymraeg.

**91%** o staff yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd (yn ôl asesiadau sydd wedi eu cwblhau)

**909** o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol**.



## 1. Cefndir - dyletswydd y Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio a nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd a chopi o Bolisi Iaith gyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi y wefan gorfforaethol:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cydraddoldeb-ac-iaith/Safonau-Gymraeg-a-Pholisi-Iaith.aspx>

## 2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol â'r Safonau iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi Iaith.

Cafodd y Polisi Iaith cyfredol ei fabwysiadu yn 2016 ac mae'n dilyn yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, y dylid parchu dewis iaith unigolion, ac y dylid manteisio ar bob cyfle i hybu'r Gymraeg y tu hwnt i ddarparu gwasanaeth dwyieithog a bod yn rhagweithiol wrth roi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, a nifer fawr gyda sgiliau Cymraeg rhugl, sydd yn golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith bellach yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddiodyn. Mae'r angen i ystyried y Gymraeg, a rôl y Cyngor wrth gynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ein cymunedau, hefyd yn arfer naturiol, ac ni chaiff yr un gwasanaeth ei gynllunio a'i ddatblygu heb ystyried yr angen i'w cynnal yn ddwyieithog.

Mae'r polisi iaith wedi bod yn cael ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gyda'r amserlen wedi oedi ychydig oherwydd blaenoriaethau eraill cyfnod y pandemig) a gobeithiwn y bydd yn cael ei fabwysiadu yn fuan yn 2022, wedi i'r Cyngor newydd gael ei sefydlu. Mae'r Polisi nid yn unig yn gosod amodau penodol i sicrhau ein bod yn ateb gofyn y Safonau, ond hefyd yn esbonio sut y bydd y Cyngor a'i staff yn mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau ac yn rhoi y lle blaenllaw i'r Gymraeg drwy ei holl waith. Mae hyn yn cynnwys ei ymrwymiad parhaus i weithredu yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg ac i sicrhau y cynnig rhagweithiol drwy ddarparu yn Gymraeg yn gyntaf ble bynnag y bo'n bosib. Mae cymalau'r polisi sydd yn ymwneud efo cyfarfodydd, er enghraifft, yn cefnogi'r egwyddor sylfaenol y dylid cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg, gyda chyfleusterau cyfieithu i alluogi'r di-Gymraeg i gymryd rhan lawn, yn hytrach na darparu cyfieithu er mwyn sicrhau hawl y siaradwyr Cymraeg.

Mae nifer o gamau eraill wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys sefydlu trefn hunanasesu mewnol newydd, ac mae rhaglen ddatblygol ar waith fydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth staff o ymrwymadau'r Cyngor, yn cychwyn gyda mabwysiadu'r Polisi Iaith diwygiedig yn ystod chwarter cyntaf y Cyngor newydd. Ceir mwy o wybodaeth am y camau datblygol a gymerwyd yn rhan nesaf yr adroddiad.

### 3. Adlewyrchu ar y flwyddyn – 2021-22

Fe wnaeth yr heriau a wynebodd y Cyngor yn ystod y flwyddyn 2020-21 barhau i raddau helaeth i flwyddyn 2021-22, gydag effeithiau y pandemig yn dal i gael eu teimlo, a staff ac adrannau wedi gweithio yn galed i gynnal gwasanaethau tra'n ymateb i heriau gweithio o bell a heriau staffio.

Unwaith eto, mae'r ffaith bod y Cyngor wedi gallu sicrhau'r gwasanaeth dwyieithog drwyddi draw ar gyfer y cyhoedd, yn arwydd pendant o lwyddiant y polisi iaith ac o'r modd y mae gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei wreiddio drwy holl waith y Cyngor.

Rydym bellach yn wynebu ffordd gwbl newydd o weithio yn y tymor canolig i hir, gyda nifer o staff wedi dewis parhau i weithio o adref, ac eraill yn dychwelyd i'r swyddfeydd. Mae hyn yn creu sefyllfa newydd i ni ymateb iddi, ac rydym o ganlyniad wedi cael cyfle i edrych o'r newydd ar ein trefniadau monitro, a sut rydym yn hysbysu ac atgoffa staff o'u hymrwymadau o ran y Gymraeg.

Mae'r drefn hunanasesu newydd gan y Comisiynydd hefyd wedi'n galluogi i gymryd cam yn ôl ac edrych ar rai o'n prosesau. Mae nifer o gynlluniau ar waith o ganlyniad.

Cynigiwn yma adlewyrchiad ar rai o'r heriau a'r llwyddiannau dros y flwyddyn:

#### 3.1 Camau gweithredu i gryfhau cydymffurfiaeth

- **Cyfieithu ar y pryd a chyfarfodydd hybrid (Safonau 23 – 33)**

Adroddwyd 'llynedd ar y gwaith allweddol o sicrhau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd rhithiol, a llwyddiant y Cyngor i gynnal cyfarfodydd pwyllgorau'r cyngor yn gyfan gwbl ddwy-ieithog trwy gydol y cyfnod clo. Adroddwyd hefyd ar yr her a wynebwyd gydag ambell i sefydliad cyhoeddus arall nad oedd yn caniatáu'r defnydd o zoom. Roedd hyn yn golygu fod y Cyngor wedi gorfod trefnu a darparu cyfieithu ar y pryd ar ran eraill ac/neu bod hynny wedi effeithio ar hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd gan nad oedd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r di-Gymraeg. Mae'r heriau hyn wedi parhau yn ystod 2021-22, ond mae'r Cyngor ei hun wedi llwyddo i sicrhau cyfieithu ar y pryd mewn unrhyw gyfarfodydd gyda'r cyhoedd lle roedd angen, a hefyd wedi llwyddo i we-ddarlledu nifer o'i gyfarfodydd yn fyw yn y ddwy iaith.

Arweiniodd y rhwystrau gyda chyfarfodydd allanol at alwad gan Bwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd ar i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gynnig cyfarfodydd lle mae modd cymryd rhan yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ddi-ofyn, yn arbennig gan fod y dechnoleg yn caniatáu hynny mor rhwydd. Rhoddwyd pwysau hefyd i gael y cyfleuster cyfieithu i weithio ar gyfer y Gymraeg a Saesneg o fewn Microsoft Teams.

Cyflwynwyd her ychwanegol yn ystod 2021-22, a hynny o ganlyniad i'r newidiadau tymor hirach yn ein ffyrdd o weithio. Gwelwyd bod angen datblygu y gallu i gynnal cyfarfodydd aml leoliad, gyda chyfleuster cyfieithu ar y pryd, fyddai yn sicrhau bod unigolion sy'n mynychu cyfarfodydd yn y Siambr neu yn ymuno o bell dros y we yn gallu cymryd rhan yn hwylus, ac yn gallu cael mynediad at wasanaeth cyfieithu ar y pryd lle bo'r angen.

Bu'n her a gymerodd hwy o amser na'r disgwyl yn sgil yr angen i barhau gyda mesurau covid a gweithio o gartref am amser estynedig, yn ogystal â chyd-weithio gyda chwmni cenedlaethol sy'n ceisio darparu gwasanaeth hybrid (heb gyfieithu!) i nifer fawr o awdurdodau a busnesau ar draws y byd. Trwy ymroddiad swyddogion o'r gwasanaeth Democratiaeth, Iaith a Chyfieithu, mae trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer y brif siambr gyfarfod yn y pencadlys, yng Nghaernarfon, sy'n caniatáu mynediad rhwydd o bell ac a fydd yn sicrhau bod modd i'r cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal yn Gymraeg gyda chymorth cyfieithu. Mae gwaith pellach yn parhau i fireinio'r gwasanaeth, gan edrych ar ddarparu cyfieithu ar y pryd o wahanol ystafelloedd neu gan ddefnyddio cyfarpar symudol fel y cam nesaf.

- **Asesu Effaith (Safonau 88-93)**

Mae gwaith yn parhau i fireinio a gwella trefniadau asesu effaith y Cyngor ar draws y meysydd lle mae cyfrifoldebau statudol i asesu effaith. Adroddwyd yn flaenorol bod asesiad integredig yn cael ei ddatblygu yn rhanbarthol ar gyfer cydraddoldeb, iaith a'r dyletswydd economaidd gymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu asesiad digidol ar sail yr asesiad integredig hwn, a hefyd yn sefydlu trefn newydd o gyflwyno gydag eitemau i'r Cabinet.

Mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o flaenoriaethau a darpariaeth gwasanaethau yn y Cyngor. Ni wneir unrhyw benderfyniad ar newidiadau i wasanaethau, neu wrth ddatblygu cynlluniau strategol, heb fod y Gymraeg a darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r cynlluniau hynny.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr asesiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet, ac sydd yn cael eu paratoi ar gyfer cynlluniau a phrosiectau, ond rydym yn dal i weld lle i wella, a byddwn yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth o'r angen i gynnal asesiadau amserol a phriodol dros y flwyddyn nesaf.

- **Polisi dyfarnu grantiau (Safon 94)**

Buom yn adolygu canllawiau y Cyngor ar gyfer dyfarnu grantiau yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r Cyngor yn dyrannu llawer o grantiau uniongyrchol erbyn hyn (mae'n fwy tebygol o dyrannu arian ar ran cyrff eraill megis Llywodraeth Cymru, gan ddilyn yr amodau a osodir gan yr arianwyr hynny), ond gwelwyd bod angen gosod canllawiau cyffredinol, cliriach, i staff ar y materion ieithyddol y mae angen eu hystyried wrth ddyrannu cymorth ariannol. Mae dogfen bolisi wedi ei ddrafftio, felly, ac ymgynghori mewnol wedi bod ar ei gynnwys a'i weithrediad. Bydd y ddogfen hon yn cael ei rannu yn swyddogol gyda staff a'r cyhoedd fel atodiad i'r Polisi Iaith diwygiedig yn ystod 2022.

- **Ymwybyddiaeth iaith (Safonau 132, 133)**

Mae e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith ar gael i bob aelod o staff ac yn rhan o'r modiwlau hyfforddiant craidd ar y mewnrwyd. Bydd pob aelod o staff newydd yn cael eu cyfeirio at y modiwlau craidd yma fel rhan o drefniadau sefydlu ac anwytho. Nid oeddem wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb ers cyn y cyfnod clo, ac oherwydd y newidiadau mewn patrymau gweithio gwelwyd bod angen addasu modiwlau hyfforddiant i allu darparu ar-lein, drwy Microsoft Teams neu Zoom.

Bu swyddogion yr Uned Iaith a Chraffu a'r Tîm Dysgu a Datblygu yn cydweithio yn ystod y flwyddyn felly i addasu'r hyfforddiant wyneb yn wyneb i un ar-lein, gan dreialu'r hyfforddiant newydd gyda staff y gwasanaeth Olrhain a Phrofi. Bydd yr hyfforddiant wyneb yn wyneb yma yn cael ei dargedu a'i deilwra i wasanaethau penodol, a bydd yr e-fodiwl yn parhau i gael ei hyrwyddo fel rhan o'r hyfforddiant craidd.

Bu'r Uned Iaith a Chraffu a'r Tîm Dysgu a Datblygu hefyd yn cyfrannu at waith cenedlaethol yn ystod y flwyddyn i ddatblygu modiwl ymwybyddiaeth iaith ar gyfer aelodau etholedig.

- **Gweithdrefn Gwyno** (Safonau 156, 162, 168)

Byddwn yn delio gydag unrhyw gwynion iaith yn dilyn y weithdrefn gwynion gorfforaethol. Fel rheol, yr Ymgynghorwyr Iaith fydd yn delio gydag unrhyw gwynion sydd yn ymwneud efo cydymffurfiaeth efo'r Safonau a'r Polisi Iaith, er mwyn sicrhau cysondeb a monitro effeithiol, ond gall y cwynion gael eu derbyn gan adrannau unigol, gan y swyddog cwynion corfforaethol, neu gan yr Uned Iaith a Chraffu ei hun. Er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn glir i'r cyhoedd, a'r gofynion ac atebolrwydd yn eglur i staff, mae dogfen newydd wedi ei chreu a'i rhannu sydd yn manylu ar y drefn ar gyfer cyflwyno cwynion iaith yn benodol, a sut mae'n plethu gyda'r weithdrefn gorfforaethol. Mae'r ddogfen wedi ei chreu a bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor yn fuan yn 2022.

- **Trefn Hunanasesu**

Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd trefn hunanasesu newydd i adrannau'r Cyngor er mwyn gwella perchnogaeth ac ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau. Bydd yr adrannau yn gorfod cyflwyno asesiadau blynyddol i'r Uned Iaith a Chraffu, er mwyn eu cynorthwyo hwythau i adnabod bylchau, i ddatblygu rhaglen ymyraethau, ac er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r galw am hunanasesiad corfforaethol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

- **Mewnrodd staff ac aelodau etholedig**

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd tudalennau penodol ar fewnrodd y Cyngor – un ar gyfer staff mewnol ac un ar gyfer aelodau etholedig – fydd yn cynnwys gwybodaeth am bopeth cysylltiedig efo'r maes iaith. Bydd yn gweithredu fel un man canolog lle bydd posib i staff ac aelodau etholedig ganfod gwybodaeth am y Polisi Iaith, y Safonau, strategaeth iaith y Cyngor a chael canllawiau a thempledi ymarferol i'w defnyddio yn eu gwaith. Rydym yn gobeithio y bydd y ffynhonnell wybodaeth yma yn codi ymwybyddiaeth ac yn cryfhau cydymffurfiaeth gyda rhai safonau drwy sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau yn hygyrch ac ar gael i bawb. Bydd y dudalen ar y mewnrodd staff hefyd yn cysylltu gyda'r dudalen cydraddoldeb, a'r dudalen dysgu a datblygu iaith, sydd yn cynnwys gwybodaeth bellach yn ymwneud efo trefniadau asesu effaith a'r gefnogaeth eang sydd yna i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu.

- **Tudalen Iaith y wefan gyhoeddus**

Mae tudalen bwrpasol hefyd wedi cael ei chreu ar gyfer y wefan gyhoeddus, sydd yn dod a gwahanol elfennau a ffynonellau gwybodaeth yn ymwneud efo'r iaith at ei gilydd mewn un lle. [Yr Iaith Gymraeg \(llyw.cymru\)](#). Gobeithiwn y bydd y dudalen hon yn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddod o hyd i wybodaeth am flaenoriaethau ac ymrwymïadau'r Cyngor o safbwynt hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, ac y bydd yn datblygu yn ffynhonnell wybodaeth ac adnoddau ar sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.

- **Ymateb i ohebiaeth dorfol (Safon 4)**

Mae gwaith wedi cychwyn ar wirio systemau TG sydd yn anfon gohebiaeth dorfol i'r cyhoedd er mwyn sicrhau eu bod, ymysg materion eraill, yn cydymffurfio gyda'r gofyn yn Safon 4. Mae nifer o drafodaethau wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn i ddeall yn union beth yw rhai o'r rhwystrau gyda systemau TG, a lle y bydd angen gwneud newidiadau i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2022.

- **Datganiadau ar ddogfennau (Safonau 7, 49, 50A)**

Yn dilyn cyfarfod monitro y Comisiynydd aed ati i lunio nifer o dempledi i staff eu defnyddio ar ddogfennau, llythyrau ac e-byst, er mwyn cydymffurfio gyda gofynion safonau 7, 49, 50A. Mae'r datganiadau wedi eu rhannu dros e-bost, a byddant ar gael ar y mewnwyd i unrhyw un gael gafael arnynt yn rhwydd. Bydd nodiadau atgoffa yn cael eu rhannu yn rheolaidd hefyd er mwyn cynyddu nifer y staff sydd yn eu defnyddio.

- **Defnydd y cyhoedd o wasanaethau (hybu gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, safon 81)**

Er mwyn ceisio cynyddu defnydd o wasanaethau drwy'r Gymraeg rydym yn cydweithio ar brosiect Gwasanaethau Cyswllt Cyntaf gydag ein partneriaid eraill yn y sector gyhoeddus drwy Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Pwrpas y prosiect yw annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Comisiynwyd cwmni i wneud astudiaeth o ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn 12 derbynfa draddodiadol yng Ngwynedd a Môn ac i ymchwilio i ymyraethau posib er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2022.



### 3.4 Heriau wrth symud ymlaen

Mae cyfuniad o ffactorau wedi gwneud y flwyddyn ddiwethaf yma yn un heriol unwaith eto. Mae addasu i drefniadau gwaith newydd yn benodol yn cyflwyno nifer o heriau wrth symud mlaen. Rhoddir yma grynodeb o rai o'r materion penodol fydd yn cael sylw gennym yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth a gwella ymrwymiad y Cyngor i hybu'r Gymraeg.

- **Asesu effaith cynlluniau strategol mawr**

Mae nifer o gynlluniau strategol mawr wrthi yn cael eu rhoi ar waith gan y Cyngor ar hyn o bryd sydd yn cyfrannu mewn sawl ffordd at gynhالياeth y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ym maes Tai, Adfywio Cymunedol a Thwristiaeth. Bydd yn allweddol bod asesiadau effaith priodol yn cael eu cynnal o'r cynlluniau yma wrth iddynt gael eu datblygu, ond hefyd ein bod yn datblygu mesurau a dangosyddion fydd yn ein galluogi fel Cyngor i fonitro effaith a dylanwad y cynlluniau hyn wrth iddynt gael eu gweithredu, yn unigol ac ar y cyd.

Bydd ystyried sut i ymgorffori y cynlluniau yma i'r strategaeth iaith newydd yn flaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf .

- **Systemau TG**

Mae'r symud cynyddol i ddarparu mwy o wasanaethau ar-lein yn golygu heriau o hyd, yn enwedig pan fydd angen prynu systemau pwrpasol i mewn. Rydym wedi adrodd ar yr heriau hyn sawl tro i'r Comisiynydd, ac rydym yn parhau i weithio i geisio sicrhau y darpariaethau gorau, sydd yn ateb gofyn y cyhoedd ac yn cyrraedd y safonau a gofynion Polisi y Cyngor. Rydym hefyd wedi dechrau ar broses o adolygu systemau hyn sydd gan y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw bob amser, a bod newidiadau yn cael eu gwneud i wella y cynnig rhagweithiol wrth i systemau gael eu hadnewyddu neu ail-gomisiynu.

- **Magu sgiliau a hyder staff**

Un o'r heriau sydd yn ein wynebu yw sut mae'r Cyngor yn mynd i allu sicrhau cyfleoedd effeithiol i ddysgu ac ymarfer sgiliau Cymraeg wrth i'r model gweithio newid yn y tymor hir? Wrth i'r prosiect Dynodiadau symud i'r cam nesaf, sef cynyddu nifer y staff sydd yn cwblhau'r hunanasesiad, a chefnogi a monitro cynnydd dysgwyr neu staff nad ydynt eto yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi, bydd ein sylw ninnau yn symud o'r asesu i gynnig cefnogaeth briodol i fagu hyder a datblygu sgiliau.

Wrth i sefyllfa'r pandemig wella, a'r pwysau gwaith ar ein staff leihau yn raddol, bydd angen rhoi sylw i sgiliau iaith staff y gwasanaethau hyn. Mae'r ffaith fod amrywiaeth o gyrsiau a dulliau dysgu ar gael bellach yn fudd mawr wrth geisio cyfarch yr her hon, yn ogystal â'r gallu i gomisiynu cyrsiau arbennig. Mae'r cyrsiau sydd wedi'u trefnu dros y ddwy flynedd diwethaf wedi cynnig cyfleoedd

gwerthfawr inni asesu'r hyn sy'n gweithio i wahanol garfannau o staff. Gobeithiwn fanteisio ar y wybodaeth hon er mwyn parhau i drefnu cyrsiau addas ac effeithiol i staff yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn edrych ar ddatblygu ein cynlluniau pencampwyr a chyfeillion Cymraeg, er mwyn sicrhau bod cefnogaeth anffurfiol ar gael i staff o fewn yr adrannau i gynyddu eu defnydd a datblygu eu hyder. Gyda nifer o staff yn dal i weithio o gartref, mae'r diffyg cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg a gafodd ei adnabod yn ystod y cyfnod clo, yn dal i fodoli i ryw raddau, ac rydym yn ymwybodol bod angen edrych ar ddatblygu cyfleoedd newydd, sydd yn ffitio o fewn y model gweithio hybrid newydd.

Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gallwn gefnogi Rheolwyr gyda materion megis cynnal iaith cyfarfodydd mewnol a chefnogi staff newydd di-Gymraeg i gymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd ac i ddatblygu eu dealltwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys datblygu canllawiau ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog yn effeithiol.

- **Recriwtio**

Cychwynnwyd trefn newydd yn ystod y flwyddyn lle mae pob adran o fewn y Cyngor yn cymryd eu tro i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Iaith ar weithrediad y Safonau a'u hymdrechion i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Adroddodd sawl adran am bryderon recriwtio, a'r ffaith ei bod yn mynd yn anoddach recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi. Mae hyn yn amlwg yn bryder o safbwynt y Safonau, gan fod diffyg staff gyda'r sgiliau iaith priodol yn risg i'n gallu i ddarparu y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ddi-ofyn. Roedd rhai meysydd gwaith disgwylidig yn y rhai y tynnwyd sylw atynt, megis y gweithlu gofal, ond tynnwyd sylw hefyd at fylchau mewn meysydd mwy arbenigol – peirianwyr, swyddogion amgylcheddol ac ati – a bydd angen i ni sicrhau bod y mater hwn yn cael sylw yn ystod y flwyddyn fel rhan o gynlluniau datblygu gweithlu y Cyngor.

## 4. ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170

### 4.1 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein System Sgiliau Iaith newydd i gasglu ein data, sy'n rhoi gwell dadansoddiad i ni o'r sgiliau sydd gan ein gweithwyr. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y system yn ateb dau brif gwestiwn:

	Cwestiwn	Ateb
1	A yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion ei swydd?	Ydi / Nac ydi
2	Beth yw lefel iaith yr aelod o staff ar gyfer Gwranddo a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu?	Dim Sgiliau, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 1** mewn dwy ffordd:

- **gan Reolwyr Llinell:** yn ystod cyfarfodydd gyda rheolwyr ar draws y Cyngor, gofynnwn iddynt nodi, yn eu barn nhw, a yw eu staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi ai peidio.
- **trwy hunanasesiadau staff:** mae staff yn cwblhau holiadur sydd, ar sail eu hymatebion i'r cwestiynau, yn cyfrifo eu lefel ar gyfer Gwranddo a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r lefelau hynny'n cael eu cymharu gyda Dynodiadau Iaith y swydd, a chyfrifir ar sail hynny a yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion eu swydd ai peidio.

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 2** trwy hunanasesiadau staff.

Mae gwaith o gasglu'r asesiadau yn waith parhaus, ac felly rydym yn adrodd ar nifer y staff sydd wedi'u hasesu yn unig. Bydd y nifer hwn felly yn cynyddu a newid wrth i ni barhau gyda'r gwaith dros y flwyddyn nesaf.

Wrth inni gasglu mwy a mwy o asesiadau, mae gallu'r system i roi gwybodaeth o werth inni yn cynyddu, a gallwn bellach ddechrau adnabod patrymau trwy ddadansoddi'r ymatebion i'r hunanasesiad iaith. Er enghraifft, pe gwelir bod nifer o staff un gwasanaeth yn gofyn am gyrsiau gloywi iaith, gellir ymateb yn rhagweithiol i hynny.

**Mae'r wybodaeth i gyd yn cael ei gasglu yn awtomatig ar y System Sgiliau Iaith, ac yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau byw ar unrhyw adeg.** Mae elfen gofnodi data'r system yn ei lle ac yn weithredol, ond rydym yn parhau i ddatblygu adroddiadau fydd yn cynhyrchu'r data mwyaf defnyddiol.

#### NODER:

- Mae **pob un swydd** yn y Cyngor wedi'i gwirio i sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer y swydd ac yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.
- Mae **pob un swydd newydd** yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.

- Mae **pob swydd** yn cynnwys gofynion iaith **hanfodol**, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.
- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu yn union nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau y gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.
- Nid ydym yn adrodd ar staff sydd yn aelodau o'r adrannau canlynol (er yn gyflogedig gan y Cyngor) - **GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** - gan eu bod yn gydbwyllgorau ac felly nad ydynt atebol i ofynion y Safonau. Nid ydym yn cynnwys staff ysgolion yn ein data chwaith, gan eu bod yn cael eu penodi yn uniongyrchol gan yr ysgolion na staff y canolfannau hamdden gan eu bod yn dod o dan y cwmni hyd braich, Byw'n Iach. Mae'r ddau wasanaeth yma serch hynny yn cymryd rhan yn y prosiect, ac yn cynnal hunanasesiad. Mae gofyn i asesu a monitro sgiliau yn rhan o ymrwymiad cytundebol Byw'n Iach gyda'r Cyngor.

### Adroddiad Sgiliau:

Mae'r wybodaeth isod yn gywir ar amser llunio'r adroddiad ac wedi ei dynnu o'n System Sgiliau Iaith.

### Trosolwg o'r sefyllfa:

<b>Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*</b>	<b>3822</b>	
<b>Cyfanswm yr asesiadau a gasglwyd</b> (Asesiadau Rheolwyr Llinell a Hunanasesiadau)	<b>2825</b>	74%
<b>Nifer yr Hunanasesiadau a gasglwyd yn unig (Cwestiwn 2)*</b>	<b>2633</b>	69%

\*nid yw'n cynnwys staff GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, na Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru na staff ysgolion Gwynedd

### Staff a'r Dynodiadau Iaith:

<b>Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd</b>	<b>2584</b>	91%
<b>Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd</b>	<b>241</b>	9%


### Trosolwg o lefelau iaith y staff:

<b>Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath)</b>	<b>2799</b>	99.1%
<b>Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg</b>	<b>26</b>	0.9%

### Lefelau iaith y staff fesul adran:

Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu yn ôl yr hyn sydd wedi'i asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu yn meddu ar sgiliau Uwch neu Hyfedredd.

\*Er hwylustod, talfyrrwyd enwau'r adrannau yn y graff isod. Gellir gweld eu henwau'n llawn ar y dudalen nesaf




	Addysg (heb gynnwys ysgolion)	Amgylchedd	Cyllid	Cefnogaeth Gorfforaethol	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	Tai ac Eiddo	Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)	Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol
<b>Hyfedredd</b>	199	84	124	130	95	309	186	90	65	54	17
<b>Uwch</b>	153	38	56	38	44	194	65	86	42	45	9
<b>Canolradd</b>	61	7	7	4	9	78	8	34	11	3	0
<b>Sylfaen</b>	40	2	2	0	4	44	8	7	2	5	0
<b>Mynediad</b>	49	4	0	0	0	79	11	8	4	3	0
<b>Dim sgiliau</b>	6	0	0	0	0	8	0	0	0	0	0

### Lefelau iaith swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi eu dynodi fesul lefel:

Mae gofynion lefelau un swydd yn gallu amrywio o un sgil i'r llall, h.y. gall gofynion lefel Siarad a Gwrando fod yn uwch na'r gofynion lefel Ysgrifenedig. O ganlyniad i hyn, rydym yn cyfrif y lefel Siarad a Gwrando fel 'prif lefel' ar gyfer pwrpas adrodd lefelau swydd gan mai honno yw'r lefel uchaf fel rheol.

## Lefelau Iaith Swyddi Cyngor Gwynedd



Rydym yn gallu edrych ar y dadansoddiad hwn ar lefel adrannol hefyd, gan ein galluogi i weld lle mae'r swyddi lle mae lefelau is wedi eu nodi. Mae nifer o swyddi yr adran Prifffyrdd, er enghraifft, yn rhai lle nad oes angen sgiliau uwch yn y Gymraeg oherwydd bod llai o gyswllt uniongyrchol a wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd. Byddwn yn gallu cymryd sampl o'r swyddi hyn ar unrhyw adeg a chynnal gwiriad o ddynodiad y swydd.

## 5.2 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gysiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.

**Safon 128:** Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -

- (a) recriwtio a chyf-weld;
- (b) rheoli perfformiad;
- (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- (ch) ymsefydlu;
- (d) delio â'r cyhoedd; ac
- (dd) iechyd a diogelwch.

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg. Darperir fersiwn Gymraeg a Saesneg o rai cysiau ar wahân lle mae galw am hynny, ond fel rheol ceisiwn sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnis pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol.

### Hyfforddiant Cyffredinol

Nodir y wybodaeth isod ar gyfer POB ADRAN o fewn y Cyngor heblaw BYW'N IACH, Cefnffyrdd, GWE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, Cynghorwyr. Rhoi'r gwybodaeth am hyfforddiant a ddarperir yn ganolog ar gyfer y gwasanaeth Byw'n Iach ar wahân isod.

Nifer digwyddiadau unigol - **972**

Nifer y teitlau – cysiau unigol lefel Swydd/Sefydliad – **180**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	524	1612
Saesneg	402	1032
Dwyieithog	46	159

### Y newid ers 2019:

	NIFER DIGWYDDIADAU			MYNYCHWYR UNIGRYW		
	2019-20	2020-21	2021-22	2019-20	2020-21	2021-22
Cymraeg	463	289	524	1805	1044	1612
Saesneg	225	305	402	1021	796	1032
Dwyieithog	222	92	46	765	453	159

O gymharu y ffigyrau yma efo'r hyn a adroddwyd yn ystod 2020-21 gwelir bod nifer sylweddol yn fwy o hyfforddiant wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn, a bod nifer yn fwy o sesiynau Cymraeg wedi eu cynnal. Mae'r niferoedd hyn wedi dychwelyd yn ôl yn debycach i'r ffigyrau a nodwyd yn adroddiad 2019-20. Mae nifer y mynychwyr (aelodau staff) sydd wedi dewis cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn hefyd wedi cynyddu, ond nid yw cystal a'r ffigwr a nodwyd ar gyfer 2019-20. Byddwn yn trafod y ffigyrau yma gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, er mwyn gweld pa anogaeth y gellir ei roi i staff i fynychu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a sut y gellir manteisio ar y newid i gynnal sesiynau ar-lein i gynnal mwy o sesiynau yn Gymraeg gyda chyfleuster cyfieithu, a lleihau nifer y sesiynau sy'n cael eu cynnig yn uniaith Saesneg.

**Safon 128-**

**68 UNIGOLYN WEDI MYNYCHU'R GWEITHDY CROESO YN Y CYFNOD 01.04.21 – 31.03.22** (9 digwyddiad wedi ei gynnal - 1 o'r rhain yn benodol i staff Cefnffyrdd)  
 105 wedi ei gael yn Gymraeg (91%)  
 11 wedi ei gael yn Saesneg (9%)

**Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH gan y gwasanaeth dysgu a datblygu canolog:**

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.21 a 31.03.22 – **39**

Nifer y teitlau rhwng 01.04.21-31.03.22 - **11**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	21	29
Saesneg	15	40
Dwyieithog	3	3



### 5.3 Safon 154: Adrodd ar gategoreiddio swyddi

*Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn*

*(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;*

*(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;*

*(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu*

*(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.*

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	909
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	0
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0

Mae pob swydd a hysbysebir gan y Cyngor yn cynnwys gallu yn y Gymraeg fel sgil **hanfodol**.

Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu gyda datganiad sydd yn nodi mai'r Gymraeg yw iaith weithredol y Cyngor, a bod angen i ymgeiswyr feddu ar y sgiliau iaith sydd wedi eu nodi yn y swydd ddisgrifiad (h.y. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol). Mae union lefel y sgiliau llafar, ysgrifenedig a darllen a deall sydd eu hangen yn cael eu nodi o fewn Manylion Person y swydd.

Os na fydd modd penodi unigolyn gyda'r sgiliau cywir ar yr hysbysiad cyntaf, bydd modd i reolwyr wneud cais i addasu geiriad y datganiad i annog ymgeiswyr newydd ac i ganiatáu penodi rhywun sydd ddim eto yn cyrraedd y gofynion ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu. Bydd posib cynnwys cymal o fewn cytundeb i nodi'r ymrwymiad a bydd rhaglen hyfforddiant yn cael ei chytuno ar y cyd gyda'r rheolwr a'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. **Ni fydd** dynodiad iaith y swydd yn cael ei newid, felly mae'r gofyniad uchod bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd yn parhau.

Mae system swyddi newydd wedi cael ei datblygu a'i lansio tuag at ddiwedd y flwyddyn, ac mae swyddogion yr Uned Iaith a Chraffu, a swyddogion y Tîm Dysgu a Datblygu (sydd yn gyfrifol am brosiect y dynodiadau iaith), wedi bod yn cydweithio gyda'r swyddogion prosiect i sicrhau bod cwestiynau penodol yn cael eu hadeiladu i mewn i'r system er mwyn ein galluogi i ddadansoddi gwybodaeth fanylach am ystyriaethau ieithyddol o fewn y broses recriwtio yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am faint o swyddi sydd yn cael eu hysbysebu ar y gwahanol lefelau ieithyddol.

## 5.4 Adrodd ar gwynion iaith

*Nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*

Yn unol a threfniadau atebolrwydd ac adrodd mewnol y Cyngor, caiff unrhyw gwynion neu ymholiadau am wasanaethau sydd yn cael eu derbyn mewn perthynas a'r Safonau neu Bolisi Iaith y Cyngor eu cofnodi gan yr Uned Iaith a Chraffu, a'u hadrodd i Bwyllgor Iaith y Cyngor. Darparwyd adroddiad llawn ar gwynion y flwyddyn Mawrth 2021 i Mawrth 2022 i gyfarfod mis Ebrill 2022 y Pwyllgor Iaith.

### **Nifer ymholiadau cyn ymchwilio neu gamau gweithredu gan y Comisiynydd: 3**

- **Hyfforddiant swyddogion etholiad:**

Derbyniwyd ymholiad gan y Comisiynydd am hyfforddiant i swyddogion gorsafoedd pleidleisio. Roeddynt wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am ddiffyg hyfforddiant Cymraeg. Bu posib cadarnhau nad oedd yr hyfforddiant yn rhan o gyfrifoldeb y Cyngor. Mae'r hyfforddiant yn dod o dan swyddogaeth y Swyddog Canlyniadau, ac felly ddim yn dod o dan ofynion y Safonau. Derbyniwyd yr ymateb hwn a bod rôl y Swyddog Canlyniadau yn annibynnol o'r Cyngor ac felly ni arweiniodd at ymchwiliad.

- **Hunanwasanaeth Llyfrgelloedd:**

Derbyniwyd ymholiad ym mis Chwefror 2022 am ddefnydd y gwasanaeth Llyfrgelloedd o lungopiwyd ac argraffwyr. Roedd swyddfa'r Comisiynydd yn awyddus i wybod sut roedd y peiriannau hyn yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd ac a oedd y feddalwedd arnynt ar gael yn Gymraeg. Anfonwyd ymateb yn cadarnhau bod y llungopiwyd ar gael at ddefnydd y cyhoedd, ond nad oeddynt yn gweithredu fel hunanwasanaeth, a bod rhaid cael aelod o staff i'w defnyddio. Nid ydynt felly yn dod o dan ofynion peiriannau hunanwasanaeth y Safonau.

- **Monitro Cydymffurfiaeth**

Cafwyd cyfarfod monitro gyda swyddog cyswllt y Comisiynydd ym mis Ionawr 2022. Roedd hyn yn dilyn cwblhau ymarfer hunanasesu corfforaethol yn ystod haf 2021. Mae'r Cyngor wedi cael nifer o gamau gweithredu yn dilyn y cyfarfod, er mwyn gwella cydymffurfiaeth gyda'r Safonau. Mae'r Uned Iaith hefyd wedi cychwyn proses hunanasesu newydd o fewn y Cyngor, gyda hunanasesiad adrannol wedi ei rhannu gyda phob pennaeth er mwyn bwydo mewn i'n hunanasesiad corfforaethol nesaf ni yn yr haf. Bydd yr hunanasesiadau yma yn ein galluogi i adnabod bylchau a meysydd gwella yn fwy effeithiol.

### **Ymchwiliadau a gwblhawyd gan Gomisiynydd y Gymraeg : 1**

1. **Ymchwiliad CS018 – Hysbyseb Swydd Prif Weithredwr**

**Dyfarwyd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda Safonau 136A ac 137 wrth hysbysebu swydd.**

Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud efo hysbyseb swydd y Prif Weithredwr, a'r ffaith nad oedd y Cyngor wedi cynnwys manylion am ofynion iaith yn yr hysbyseb nac wedi gwahodd ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg.

Mae gofynion y Safonau yn golygu bod yn rhaid nodi ym mhob hysbyseb swydd os yw gofynion iaith yn hanfodol, dymunol neu bod gofyn i rywun ddysgu ar ôl eu penodi.

Mae egwyddor eisoes wedi ei osod o fewn Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio y Cyngor bod sgiliau yn y Gymraeg yn ofyn hanfodol ar gyfer pob swydd, ac mae gwaith eang wedi ei wneud drwy'r prosiect Dynodiadau Iaith i sicrhau bod yr union lefel o sgiliau iaith yn cael eu nodi yn y ddogfen Manylion Person.

Roedd yr hysbyseb benodol hon, fodd bynnag, wedi dilyn trefn ychydig yn wahanol i'r arfer, ac nid oedd yn cynnwys dogfennau Disgrifiad Swydd a Manylion Person fel hysbysebion swyddi arferol. Roedd dynodiad iaith wedi ei gofnodi ar gyfer y swydd yn y system swyddi, ond nid oedd wedi ei gynnwys yn yr hysbyseb. Hefyd, roedd pecyn gwybodaeth wedi ei rannu gydag ymgeiswyr posib yn sôn am ddiwylliant ac egwyddorion gweithredu y Cyngor, ond nid oedd geiriad penodol yn nodi bod angen sgiliau yn y Gymraeg. Credwyd yn gryf bod y cyfeiriad at ddiwylliant y Cyngor a'r sir yn gwneud yr angen i fod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn amlwg.

Roedd y dyfarniad terfynol yn cydnabod bod y swydd hon wedi ei hysbysebu mewn ffordd wahanol i'r arfer, ac nad oedd yr un achlysur hwn yn adlewyrchu trefniadau arferol y Cyngor. Gofynnwyd serch hynny i'r Cyngor wneud newidiadau i'r Polisi Recriwtio i nodi y bydd unrhyw swyddi sydd yn cael eu hysbysebu mewn dulliau gwahanol yn ateb yr un gofynion ac yn sicrhau bod y gofynion iaith a'r gwahoddiad i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg i'w gweld yn glir.

#### **CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR**

Adroddwyd yn llawn ar y cwynion hyn i Bwyllgor Iaith y Cyngor fel rhan o drefniadau atebolrwydd.

<b>Adran</b>	<b>Nifer y Cwynion</b>	<b>Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o</b>
<b>Cyllid</b>	<b>1</b>	Llythyr treth Cyngor yn defnyddio cyfeiriad Saesneg
<b>Economi</b>	<b>1</b>	Diffyg defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau
<b>Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>1</b>	Pamffled uniaith Saesneg wedi ei dderbyn gan y cyhoedd

## 1. Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2021-2022

### Cyflwyniad

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o ganlyniad i'r newid o ddysgu ar-leoliad mewn ystafell ddsbarth i ddysgu o bell, ar-lein, gwelsom gynnydd yn y nifer o unigolion sydd wedi manteisio ar gyfleoedd i ddysgu neu ddatblygu eu Cymraeg. Yn gyffredinol, y prif resymau dros hyn oedd:

- **dim angen teithio** – o ganlyniad, staff yn gallu treulio mwy o amser yn y gweithle
- **adnoddau ar gael ar-lein**
- **hyblygrwydd yn y trefniadau**, o ran math o gyrsiau ac o ran amser
- **dim cyfyngiadau daearyddol**, h.y. gallu cael mynediad at unrhyw gwrs o unrhyw le

Dyma drosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i staff i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod 2021-2022:

- Cyrsiau cymunedol dros flwyddyn academiaidd (gwersi wythnosol ar-lein)
- Sesiynau unigol 1:1 gyda thiworiaid allanol
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy)
- Cyrsiau hunanastudio ar-lein e.e. *Hunanastudio Iefel Mynediad, Croeso Cymraeg Gwaith a Gwella Cymraeg Gwaith*
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith (ar-lein)
- Cyrsiau a gomisiynwyd yn arbennig ar lefelau amrywiol
- Cynllun mewnol Cyfeillion Cymraeg

Cafodd cwrs Gloywi Iaith ar-lein newydd ei beilota, er mwyn cymryd lle'r Gloywi Iaith traddodiadol yn yr ystafell ddsbarth. Wedi peilot llwyddiannus y gobaith yw cynnig y cwrs yma o fis Medi 2022 ymlaen. Yn y tymor hir, gobeithiwn ehangu'r dewis trwy gynnig hyfforddiant megis *Treiglo a Defnyddio Technoleg Cymraeg*.

### Rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn

#### **Llwyddiannau dysgwr o'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a Byw'n Iach**

Mae unigolyn sy'n gweithio i'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a hefyd i gwmni Byw'n Iach wedi bod yn mynychu gwersi comisiwn ar lefel Canolradd ers Mai 2020. Yn flaenorol, bu'n anodd canfod gwersi oedd ar gael mewn lleoliad cyfleus neu ar adeg addas o'r dydd er mwyn iddi eu mynychu. Ers dechrau'r gwersi yn 2020 mae ei hyder i ddefnyddio'r iaith wedi cynyddu'n aruthrol, ac mae wedi'i chanmol gan ei rheolwyr a sawl aelod o'r cyhoedd am ei pharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae ambell un wedi tynnu sylw at eu ffaith eu bod hwythau'n dysgu mwy o Gymraeg o'i herwydd hi. Enwebwyd yr unigolyn ar gyfer Gwobr Gofalu trwy'r Gymraeg 2022 (Gofal Cymdeithasol Cymru) ac fe gyrhaeddodd y rhestr fer. Mae ei hymrwymiad a'i hagwedd tuag at ddysgu Cymraeg i'w ganmol yn fawr.

#### **Cyrsiau comisiwn**

Yn dilyn llwyddiannau cyrsiau comisiwn 2020-21, comisiynwyd sawl cwrs arbennig ar gyfer ein staff yn ystod 2021-22 hefyd. Oherwydd anghenion amrywiol ein gweithlu, mae'r cyrsiau hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd gan hefyd gynnig y cyfle i staff ddod i adnabod ei gilydd yn well. Dyma ambell enghraifft o'r cyrsiau a drefnwyd:

Lefel	Manylion y cwrs	Nifer y mynychwyr	Rhagor o wybodaeth
Mynediad	Gwersi wythnosol, 3 awr o hyd dros 15 wythnos	6	Trefnwyd y cwrs yma'n benodol ar gyfer staff gofal cymunedol. Sylweddolwyd bod nifer o staff y gwasanaeth yma yn gweithio shifftiau ac yn methu ymrwymo i gwrs cymunedol neu gwrs dwys. O ganlyniad, comisiynwyd cwrs byr, 15 wythnos, er mwyn cyflwyno'r Gymraeg a rhoi blas o elfennau'r Gymraeg, ar amser a dyddiad y gallai'r mynychwyr ymrwymo iddo. Bu'n rhaid dod â'r cwrs i ben ar ôl mis Rhagfyr oherwydd pwysau gwaith yn y maes o ganlyniad i Covid-19 a rhesymau eraill y tu hwnt i'n rheolaeth. Serch hynny, mae 3 o'r mynychwyr bellach yn dilyn cwrs cymunedol.
Canolradd Rhan 2	Gwersi wythnosol 3 awr o hyd dros 15 wythnos	8	O ganlyniad i lwyddiant y cwrs Canolradd y llynedd ar gyfer staff Byw'n lach, Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Economi a Chymuned trefnwyd dilyniant rhwng mis Mawrth a Mehefin 2021, gyda dilyniant pellach o fis Medi 2021 i Mehefin 2022. Ar ddiwedd y cwrs, bydd y dysgwyr yn cwblhau lefel Canolradd ac yn cael y cynnig i sefyll arholiad a/neu barhau i astudio ar gwrs lefel Uwch ym mis Medi. Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth ganolog iddynt gyda Chyfaill Cymraeg.
Gloywi Iaith	2 sesiwn 5 awr dros 2 ddiwrnod dilynol	8	Yn ogystal â threfnu cyrsiau i ddysgwyr, credwn fod cynnal safon ein siaradwyr Cymraeg rhugl cyn bwysiced. Yn dilyn llwyddiant cwrs Gloywi Iaith blaenorol a drefnwyd trwy Gymraeg Gwaith, trefnwyd cwrs Gloywi Iaith penodol i staff o adran Tai ac Eiddo'r Cyngor. Unwaith eto, roedd hi'n braf gweld bod staff yn fodlon rhoi ymrwymiad amser i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith.
Codi Hyder (Cymraeg Gwaith)	2 awr yr wythnos am 14 wythnos (+ 2 sesiwn adolygu dilynol)	7	Wedi i sawl unigolyn ddangos diddordeb mewn cwrs i godi eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, trefnwyd y cwrs hwn ar y cyd gyda Gymraeg Gwaith a Chanolfan Bedwyr. Bu'r unigolion yn mynychu gwersi wythnosol rhwng Medi a Rhagfyr 2021 cyn mynd ymlaen i sefyll arholiad y Dystysgrif Sgiliau Iaith fis Mai 2022. Roedd hi'n braf gallu cynnig cymhwyster i'r unigolion ar ddiwedd y cwrs ac rydym yn gobeithio gallu cynnal y cwrs eto fis Medi 2022.

## Cyrsiau 'Defnyddio' Cymraeg Gwaith

Profodd y cyrsiau hyn, a gynhaliwyd ar-lein gan Nant Gwrtheyrn, yn boblogaidd iawn gyda staff y Cyngor eleni. Maent yn gyrsiau dwys 5 diwrnod ac ar gael o lefel Canolradd hyd at lefel Gloywi. Mynychodd 18 aelod o staff y cyrsiau hyn rhwng Mehefin 2021 a Mawrth 2022, gyda mwy yn parhau i ddangos diddordeb. Bu'n galonogol gweld fod staff a rheolwyr yn fodlon blaenoriaethu hyfforddiant iaith, a'u bod yn amlwg yn gweld gwerth i roi'r amser i ddatblygu'r sgiliau hyn er eu mwyn eu hunain ond hefyd i'w gwasanaethau. Mae'n amlwg fod gallu mynychu cwrs fel hyn ar-lein yn llawer mwy hwylus i staff, er i ambell un nodi y bydden nhw wedi hoffi gallu mynychu dosbarth wyneb i wyneb.

## Cynllun Cyfeillion Cymraeg

Lansiwyd ein cynllun Cyfeillion Cymraeg yn 2019 er mwyn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg newydd yn y gweithle a pharhau i hodi eu gallu yn yr iaith y tu allan i'r dosbarth, a hynny yng nghwmni siaradwyr rhugl ar draws y sefydliad. Cafodd y Cynllun ei groesawu gan nifer o siaradwyr rhugl y Cyngor hefyd, gan ei fod yn gyfle iddynt gefnogi dysgwyr ar eu taith ddysgu a chynnig cymorth a chlust i wrando mewn awyrgylch anffurfiol.

Ni fu'n bosib i rai parau ddal ati i gyfarfod oherwydd y pandemig a phwysau gwaith cynyddol, ond mae'n braf iawn gweld rhai yn ailgydio yn y Cynllun erbyn hyn. Erbyn diwedd Mawrth 2022 roedd 6 unigolyn yn derbyn cefnogaeth gan 5 'Cyfaill'. Mae'r cyfle i gael sgysiau anffurfiol gydag aelodau eraill o staff y Cyngor yn profi i fod yn werthfawr iawn i ddysgwyr, gyda nifer yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymarfer a'u iaith yn Westiynau. Y gobaith yw bod y sesiynau hyn yn cefnogi

eu gwersi ffurfiol ac yn eu helpu i fagu hyder. Dyma sylwadau gan ambell un o'n 'Cyfeillion' am gynnydd rhai o'r unigolion:

*"Mae ei hyder hi i siarad Cymraeg wedi gwella yn aruthrol – ac rydym yn trafod pynciau amrywiol iawn – popeth o fwyd Siapan i dylwyth teg!"*

*"Mae hi'n ysgrifennu e-byst yn Gymraeg bellach ac yn gwella."*


Byddwn yn parhau gyda'r cynllun presennol gan chwilio am ragor o Gyfeillion i gefnogi dysgwyr yn ystod y flwyddyn nesaf, boed hynny ar-lein neu wyneb i wyneb.

**Mae'r tablau isod yn cynnig rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r hyfforddiant iaith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn 2021-2022.**


#### **NIFER Y MYNYCHWYR YN ÔL MATH/TEITL CYRSIAU**

<b>Cwrs</b>	<b>Nifer Unigolion</b>
<b>Mewnol</b>	
Gloywi iaith	8
<b>Allanol</b>	
Cyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg	12
1:1 gyda thiwtor allanol	1
Cyrsiau dwys	18
Cyrsiau hunanastudio ar-lein (Cymraeg Gwaith)	15
Comisiynau amrywiol	29
	83

## NIFER MYNYCHWYR YN ÔL MATH A LEFEL Y CWRS



Mae'r dysgwyr hyn wedi eu rhannu ar draws adrannau'r Cyngor fel a ganlyn:



# Eitem 8

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Iaith
<b>DYDDIAD</b>	20/6/22
<b>TEITL</b>	Adroddiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant i'r Polisi Iaith.
- 1.2 Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio yn holl waith yr Adran a byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y cyfleoedd sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth i'n trigolion gan gydnabod hefyd yr heriau sy'n wynebu'r maes.
- 1.3 Yn 2016 lanswyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud "Cynnig Rhagweithiol" i bawb. Mae gallu darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" yn golygu na ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod gwneud cais am gael gwasanaeth yn Gymraeg gan y dylai fod gwasanaeth yn Gymraeg ar gael iddynt heb orfod gofyn amdano.
- 1.4 Mae'r fframwaith yn cefnogi Polisi Iaith y Cyngor ac rydym fel Cyngor wedi ymrwmo i Mwy na Geiriau o'r cychwyn cyntaf ers pan ei gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2012 ac wedi croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2016. Mantais amlwg y fframwaith yw ei fod yn fframwaith cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb ar draws y wlad, ond hefyd ar draws sefydliadau maes. Mae swyddogion y Cyngor wedi cyfrannu'n gyson i fforwm Rhanbarthol sydd wedi cael ei sefydlu gan Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd ar gyfer cydweithio a rhannu ymarfer da. Yn dilyn newid yn strwythurau staffio'r Cyngor a swyddi perthnasol yn yr Adran, bydd angen ail edrych ar gynrychiolaeth yr Adran a'r Cyngor yn y fforwm erbyn y fforwm nesaf.



## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn
<p><u>Hybu a hyrwyddo</u></p> <p>Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p> <p>Mae Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd i'w weld yma:  <a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf</a></p> <p>Mae'n gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Iaith y teulu,</li> <li>2. Iaith dysgu,</li> <li>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,</li> <li>4. Iaith y gymuned</li> <li>5. Ymchwil a Thechnoleg</li> </ol>	<p><b>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</b></p> <p>Mae'n ofynnol i'r Adran Oedolion wneud cynnig rhagweithiol i bawb sy'n derbyn gwasanaeth, gan sicrhau fod unigolion yn derbyn Gwasanaeth yn yr iaith o'u dewis heb orfod gofyn. Mae hyn yn egwyddor sy'n greiddiol i waith Dydd i Ddydd yr Adran.</p> <p><b>Dementia</b></p> <p>Mae'n hollbwysig fod Oedolion sydd â dementia yn cael eu cefnogi yn eu Hiaith ddewisol, ac mae ymchwil sylweddol wedi profi'r effaith ar lesiant unigolion. Wrth ddatblygu unedau dementia yng Nghartrefi Mewnol y Cyngor, hyfforddi staff i fod yn arbenigwyr dementia, a pharhau i gynnig sesiynau Dementia Go yn y Gymraeg ar draws y Sir, mae hyn yn sicrhau gwasanaeth Cymraeg o safon i unigolion sydd â dementia yn eu cymunedau lleol. Mae'n hanfodol wrth i ni ddatblygu opsiynau technoleg/teleofal i'r dyfodol fod opsiynau Cymraeg ar gael, a bydd hyn yn cael sylw fel rhan o'r Prosiect Teleofal yn ystod 2022/23.</p> <p><b>Achosion All-Sirol</b></p> <p>Yn hanesyddol, mae unigolion o Wynedd wedi derbyn gwasanaeth tu allan i Wynedd am amryw resymau, er enghraifft fod y gofal arbenigol sydd ei angen ddim ar gael yng Ngwynedd. Mae hyn yn wir yn enwedig yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i adnabod yr unigolion sydd gennym yn derbyn gwasanaeth tu allan i Wynedd, a thrafod y posibilrwydd o ddychwelyd nôl i Wynedd. Mae esiamplau lle mae unigolion yn awyddus i ddychwelyd yn ôl i Wynedd i fyw, i fod yn agosach i Deulu ac i fod yn gweithio a derbyn Gwasanaeth yn y Gymraeg. Bydd hyn yn flaenoriaeth dros y cyfnod o'n blaenau, i sicrhau fod pawb sydd eisiau byw mewn cymdeithas naturiol Cymraeg yn cael y cyfle hynny.</p>
<p><u>Allanol gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></p>	<p><b>2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</b></p>

<p>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?</p>	<p><b><u>Prosiect Gofal Cartref</u></b></p> <p>Dros y misoedd diwethaf mae gwaith yn mynd rhagddo i ail edrych ar y ddarpariaeth Gofal Cartref yng Ngwynedd. Bydd darparwyr yn gweithredu mewn dalgylch daearyddol ac yn gweithredu yn fwy hyblyg yn unol ag anghenion Oedolion a'u gofalmwyr. Fel rhan o'r prosiect, rydym fel Adran wedi gallu gosod amodau ieithyddol penodol er mwyn sicrhau fod yr Iaith Gymraeg a gallu gwneud y cynnig rhyngweithiol yn elfen graidd o'r cytundeb newydd gyda Darparwyr. Mae hyn wedi bod yn elfen allweddol wrth ddyfarnu contractau newydd, a bydd yn parhau i fod yn elfen allweddol wrth i'r model newydd gael ei weithredu ac wrth i ni fonitro cytundebau.</p> <p><b><u>Hyfforddiant</u></b></p> <p>Yn aml mae elfennau o hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol yn cael ei allanoli, yn enwedig pan fo'r hyfforddiant yn un mewn maes arbenigol. Yn hanesyddol mae hyfforddiant arbenigol yn y Gymraeg wedi bod yn fwch, ond mae ymdrech yr Adran dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu fod hyfforddiant yn y Gymraeg yn rhan annatod o gontractau hyfforddiant bellach. Mae trafodaethau yn parhau gyda phartneriaid megis Prifysgol Bangor er mwyn darparu cyfleoedd hyfforddiant arbenigol, pwrpasol yn y Gymraeg.</p>
<p><b><u>Gweithredu'n ddwyieithog</u></b></p> <p>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg?</p>	<p><b><i>3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</i></b></p> <p>Gall hyn fod ar draws yr adran neu mewn gwasanaethau penodol. e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• problemau recriwtio neu ddiffyg sgiliau staff</li> <li>• Gweithio mewn maes sydd yn cael ei ystyried yn ddiwydiant "Saesneg" ei natur (h.y. dylanwadau allanol)</li> <li>• Cydweithio gyda chyrff ac asiantaethau allanol sydd ddim yn gweithredu yn ddwyieithog</li> </ul> <p><b><u>Recriwtio</u></b></p> <p>Mae recriwtio yn parhau i fod yn un o'r prif rwystrau i'n galluogi i gynnig Gwasanaethau yn llawn yn y Gymraeg. Mae recriwtio i'r maes gofal yn broblem genedlaethol, ac mae'r broblem yn cael ei amlygu mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd yn fwy nag eraill. Pan fo'r Gwasanaeth yn ceisio pob ffordd i recriwtio i swyddi gofal rheng flaen ac yn methu, yn aml iawn mae rhaid cyfaddawdu er mwyn gallu cynnig unrhyw fath o wasanaeth. Mae cefnogaeth yn cael ei roi i staff di-gymraeg ac mae esiamplau o staff di-gymraeg yn dysgu ac yn dod yn aelodau gwerthfawr o'r Adran gyda chefnogaeth. Mae'r Adran wedi cychwyn recriwtio yn lleol (e.e. recriwtio yn ardal Maesgeirchen ar gyfer Cartref Plas</p>

	<p>Hedd), ac mae hyn wedi galluogi rheolwyr i drafod anghenion iaith ac opsiynau gydag unigolion na fyddai wedi dod i gyswllt yn flaenorol o bosib.</p> <p><b><u>Cydweithio gyda Phartneriaid</u></b></p> <p>Mae'r Adran yn cydweithio yn agos gyda'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r Tîm Iechyd Meddwl er enghraifft yn dîm integredig wedi ei lleoli gyda'r Bwrdd Iechyd yn Uned Hergest, Bangor ac yn Ysbyty Alltwen. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ddylanwadu ar bartneriaid ac i gydweithio er mwyn hybu'r Gymraeg, ond mae gwaith y timau yn aml yn adweithiol. Pan mae angen ymateb ar frys i faterion ar y cyd gyda'n partneriaid, e.e. materion diogelu, yn aml mae hyn yn rhwystr.</p>
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p><b><i>4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</i></b></p> <p><b><u>Prosiect Gwydnwch Cymunedol</u></b></p> <p>Bydd prosiect yn cael ei sefydlu yn ystod 2022/23 drwy arian grant fydd yn edrych ar sefydlu hybiau mewn gwahanol gymunedau ar draws y Sir. Y bwriad ydi cynnig Gwasanaethau ataliol o'r hybiau, a drwy gynnig gwasanaeth a chyfleoedd i unigolion yn lleol yn eu cymunedau, bydd hyn yn gyfle gwerthfawr i hybu'r Gymraeg, yn enwedig mewn rhai o'r cymunedau lle mae'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn is. Fyddai modd cydweithio i gynnig gwersi Cymraeg i Oedolion yn eu cymunedau lleol er enghraifft?</p> <p><b><u>App 'Insight'</u></b></p> <p>Mae'r tîm Llwybrau Llesiant o fewn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol, hyfforddiant, gwaith ayyb i unigolion gydag Anableddau Dysgu. Mae dros 150 o unigolion yng Ngwynedd wedi derbyn gwasanaeth gan y tîm. Drwy ymuno gyda app 'Insight' mae'r tîm wedi gallu agor y cyfleoedd i fyny i weddill Cymru, lle gall unigolion gydag Anableddau Dysgu ar draws Cymru ymuno gyda sesiynau'r tîm yn rhithiol. Does dim llawer o gyfleoedd Cymraeg ar yr ap, ac mae'r tîm Llwybrau Llesiant yn flaenllaw o ran cynnig sesiynau Cymraeg ar yr ap. Mae esiamplau o unigolion ar draws Cymru yn ymuno gyda sesiynau'r tîm gan eu bod yn cael eu cynnal yn y Gymraeg, ac unigolion yn gwneud ffrindiau ar draws Cymru. Mae hyn yn rhywbeth mae'r tîm yn bwriadu ehangu arno dros y flwyddyn nesaf.</p>

**Graddedigion/Hyfforddai**

Mae ymdrech benodol yn cael ei wneud i dargedu hyfforddeion a graddedigion ar gyfer swyddi sydd wedi bod yn anodd penodi iddyn nhw yn hanesyddol. Drwy gynnig cyrsiau yn y Gymraeg ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor, e.e. Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol, mae modd ceisio denu graddedigion nôl i'r Sir. Yn ogystal â'r hyfforddai Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol, mae'r Adran wedi penodi tri hyfforddai Cymraeg Arwain a Rheoli dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r tri wedi dychwelyd i'r ardal er mwyn gweithio yng Ngwynedd. Y gobaith yw tyfu rheolwyr ac arweinwyr y dyfodol o fewn yr Adran wrth hybu'r Gymraeg.



# Eitem 9

Cyfarfod	Pwyllgor Iaith
Dyddiad	20 Mehefin 2022
Teitl	Adroddiad Adran Plant a Cefnogi Pobl ar weithrediad y Polisi Iaith a gweithgareddau hybu'r Gymraeg
Pwrpas	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith, a sut yr ydym yn mynd ati i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwaith.
Awdur	Marian Parry Hughes, Pennaeth Plant a Cefnogi Teulu

## Cyflwyniad.

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon i ddarparu gwybodaeth am gyfraniad Gwasanaethau'r Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd i Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd.

1.2 Yn 2016 lanswyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud "Cynnig Rhagweithiol" i bawb sy'n siarad Cymraeg. Mae gallu darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" yn golygu na ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod gwneud cais am gael gwasanaeth yn Gymraeg gan y dylai fod gwasanaeth yn Gymraeg ar gael iddynt heb orfod gofyn amdano.

1.3 Mae'r fframwaith yn cefnogi Polisi Iaith y Cyngor ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i 'Mwy na Geiriau' o ddyddiad ei gyhoeddi yn 2012, ac yna wedi croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd yn 2016.

1.4 Gweler isod ymateb y gwasanaeth i gwestiynau'r aelodau:

<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :</b>	Hybu a hyrwyddo
<b>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</b>	
<b>1. <u>Iaith y Teulu</u></b>	
<b>Iaith yn y sector gofal plant</b> – Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn cydweithio gydag aelodau CWLWM ( 5 sefydliad arweiniol cenedlaethol gofal plant yng Nghymru) i hybu a hyrwyddo y Gymraeg ar draws lleoliadau gofal yng Ngwynedd, sef meithrinfeydd preifat, creches, cylchoedd meithrin, gwarchodwyr preifat, cybiau ar ôl ysgol ac yn y blaen.	
Mae amrywiaeth o adnoddau, cymorth a chefnogaeth ar gyfer hyrwyddo a denfyddio'r Gymraeg gael ar gael ar wefannau'r cyrff arweiniol (Pacey, NDNA, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin ag Clybiau Plant Cymru)ac rydym yn eu hyrwyddo a;u rhannu gyda lleoliadau a daprarwyr gofal yn lleol.	
Mae Cydlynwyr Cymorth Iaith Gymraeg yn gweithio i'r 5 sefydliad sydd yn disgyn o dan ymbarél CWLWM, ag mae pob sefydliad yn gweithio ar brosiectau gwahanol ag yn cynnig cefnogaeth er mwyn hybu'r Gymraeg ac i ehangu'r nifer o leoliadau Cymraeg yng Ngwynedd.	
Mae'r gwaith i hyrwyddo cynllun CAMAU <a href="https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/">https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/</a> i annog gweithlu y sector gofal plant i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg yn parhau.	

Mae Mudiad Meithrin wedi cychwyn podcast “Baby Steps into Welsh” eleni gyda Nia Parry yn arwain, ac rydym wedi cefnogir’ Mudiada i’w hyrwyddo yng Ngwynedd.

Mae “Cynllun Croesi’r Bont” gan y Mudiad Meithrin yn parhau, prif bwrpas yw Trochi’r Gymraeg o fewn cylchoedd Meithrin a chynyddu pontio ieithyddol gyda dosbarthiadau Meithrin Ysgolion Cymru. Eleni mae 11 cylch yn y sir yn derbyn cefnogaeth y cynllun.

Mae’r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar hefyd yn cynnig grantiau o £100 i warchodwyr plant preifat newydd sydd yn ddi-gymraeg ar gyfer prynu adnoddau Cymraeg i’r ddarpariaeth.

Mae Menter Iaith Bangor wedi cynnal gweithdy i rieni a gwarchodwyr gyda plant o dan 3 oed i chwarae gemau traddodiadol a chreadigol yn y Gymraeg. Mae syniadau a cyngor ar gael i ddefnyddio Cymraeg Syml yn y gemau i ymarfer a chwarae yn Gymraeg efo’ch plant.

**Cefnogaeth i Rieni** – Mae’r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar wedi cydweithio gyda Mudiad Meithrin i gynnal sesiynau clwb cwtsh i rieni ar lein.

Mae’r Tim Cefnogi Teulu, Tim Trothwy a Gwasanaeth Ieuenctid i gyd wedi eu hyfforddi i ddarparu cyrsiau rhianta ‘Friends’ drwy gyfryngw y Gymraeg yn lleol ar gyfer grwpiau gwahanol o blant, pobl ifanc a rhieni. Rydym yn falch fod ein ymwneud ni gyda’r rhaglen hon ar y cyd gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed wedi arwain at gyfieithu’r adnoddau i gyfrwng y Gymraeg. Eleni rydym wedi gweld rhai o’r timau yn symdu i ddefnyddio adnoddau Cymraeg y rhaglen FREINDS yn ein grwpiau.

**Cefnogaeth i blant /pobl ifanc bregus** – Mae’r Timau Gwaith Cymdeithasol yn ystyried anghenion iaith bob plentyn sy’n derbyn gofal a chymorth gennym. Mae iaith yn ffactor wrth benderfynu ar faterion megis cynnwys y pecyn gofal a’r gefnogaeth sydd ei angen ar y teulu / plentyn; lleoliad gofal, maethu a/neu fabwysiadu unrhyw blentyn. Wrth gwrs mae rhai o’r plant sy’n dod i’n gofal yn gwneud hynny oherwydd y risgiau diogelu difrifol y maent yn eu wynebu a/neu oherwydd cymhlethdod a dwyster eu anghenion gofal. Bryd hynny gall lleoliadau all-sirol fod yr unig opsiwn i’r plentyn, ond pan fo hynny’n digwydd bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn parhau i gyfarch anghenion ieithyddol y plentyn drwy ymweliadau cyfrwng Cymraeg a drwy sicrhau adnoddau (llyfrau etc) iddynt yn eu lleoliad.

## **2. Iaith dysgu.**

**Addysg Feithrin** – Mae’r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am arwain ar sicrhau darpariaeth addysg feithrin (10 awr yr wythnos i blant 3 oed). Mae’r holl ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trochi plant bach yn yr iaith o’u cyflwyniad cyntaf i addysg. Mae i Wynedd 55 o ddarparwyr Addysg Feithrin ar hyn o bryd, sy’n derbyn cefnogaeth Athrawes Blynyddoedd Cynnar gennym.

**Gofal Plant Dechrau’n Deg** - Mae’r adran yn gyfrifol am arwain ar sicrhau darpariaeth Gofal Plant Dechrau’n Deg (12.5 awr yr wythnos i blant 2 oed) i ardaloedd difreintiedig penodol yng Ngwynedd. Mae’r holl ddarpariaethau’n cynnig eu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trochi plant bach yn yr iaith o’u cyflwyniad cyntaf i Ofal Plant yn 2 oed. Mae 12 lleoliad Gofal Plant Dechrau’n Deg yng Ngwynedd

**Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion** - Mae’r Rhwydwaith o Weithwyr Cymorth Ieuenctid yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cyfleon dysgu anffurfiol ac achrediaidau i bobl ifanc drwy



gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithwyr yn darparu cyfleon dysgu ac ennill achrediaidau drwy'r ysgolion uwchradd ac arbennig, ac yn pontio i weithgareddau cymdeithasol yn y gymuned.

**Gwobr Dug Caeredin yng Ngwynedd** - Un o brif raglenni achrediaidau'r Gwasanaeth Ieuenctid yw Gwobr Dug Caeredin. Y Gwasanaeth Ieuenctid sy'n darparu a gweinyddu y drwydded ar gyfer ysgolion uwchradd Gwynedd. Rydym wedi sicrhau fod holl elfennau'r wobwr ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yma yng Ngwynedd, drwy ddarparu'n uniongyrchol ein hunain a chomisiynu'r Urdd i arwain ar rhai elfennau. Mae 'App' Cymraeg Gwobr Dug Caeredin wedi ei gyflwyno erbyn hyn ac ar gael i bobl ifanc.

### 3. laith gwaith a gwasanaeth.

**Gweithlu Cymraeg** – mae 91% o weithlu'r Adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Rydym hefyd yn parhau i annog dysgu'r iaith i'r gweithlu hynny sydd am fentro. Rydym yn falch iawn eleni fod Stephen Wood (rheolwr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid) wedi ennill Gwobr Dysgu a Denfyddio'r Gymraeg yng Ngwobrau Coffa Dafydd Orwig am ei lwyddiant gyda'r Gymraeg. Dywedodd Stephen a m ei lwyddiant

*'Roeddwn yn falch iawn o gael fy enwebu ar gyfer **Gwobr Dafydd Orwig**, ac roedd ei ennill yn syndod hyfryd. Ni fyddai wedi gallu cyflawni hyn heb gefnogaeth fy ffrindiau yn Cyfiawnder Ieuenctid ac anogaeth fy nghydweithwyr yn Tîm Rheoli Gwasanaethau Plant, diolch i bawb a helpodd'.*

**Gwasanaethau Cymraeg** – yr ydym yn falch o fedru adrodd fod ein holl wasanaethau yn gallu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Hyfforddiant Arenigol a Datblygu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol** – Mae'r Rhaglen "Amddiffyn Plant yn Effeithiol" yn brosiect ym maes amddiffyn plant. Mae wedi datblygu cronfa o adnoddau ysgrifenedig, fideo a chyflwyniadau PowerPoint wedi ei droslaisio at ddefnydd proffesiynol. Mae'r deunyddiau wedi eu datblygu yn Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer defnydd rhanbarthol a chenedlaethol.

### 4. laith y gymuned

**Gwasanaeth Ieuenctid** - Mae holl ddarpariaeth gymdeithasol y Gwasanaeth Ieuenctid ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r gweithgareddau yn amrywio o gynlluniau garddio, cybiau dringo, gweithdai graffiti a chelf, sesiynau coginio mewn cymunedau drwy'r sir.

Yn ystod y flwyddyn mae ein Prosiect Cymorth Ieuenctid 16-25 oed wedi llwyddo i cyfieithu rhaglen 'FRIENDS' i'r Gymraeg i'w ddefnyddio gyda pobl ifanc lleol. Nod y rhaglen yma yw cynyddu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, hybu gwydnwch, ac atal gôr bryder ac iselder gydol oes, sydd yn rhan annatod o waith y tîm. Mae pobl ifanc wedi nodi bod cymryd rhan yn y rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg, eu hiaith gyntaf, wedi bod yn bositif iddynt o ran eu gallu i gymryd rhan ac yn sgil hynny yn eu datblygiad personol.

**Gweithgareddau a Chwarae** – Mae'r Adran wedi arwain ar sefydlu Fframwaith Weithgareddau a Chwarae i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor. Hyd yma mae 24 o ddarparwyr gweithgareddau wedi cymeradwyo ar y fframwaith ac yn gallu darparu cyfleon chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Fframwaith yn cael ei defnyddio ar gyfer comisiynu

gweithgareddau hwyliog, creadigol, chwaraeon a chwarae i blant a pobl ifanc. Drwy gyfnod gwyliau ysgol 2021-22, ac yna misoedd y gaeaf bu i'r Adran gomisiynu gweithgareddau hwyliog a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r sir. Bu i bartneriaid fel Canolfan Gerdd William Mathias, Sbarduno, Byw yn Iach, Dawns i Bawb, Leisa Mererid, Elfennau Gwyllt, Urdd a Cimera ddarparu ystod amrywiol o weithgareddau drwy'r sir ar gyfer plant dan 5 a'u teuluoedd, plant oed cynradd, a pobl ifanc 11-25 oed.

### 5. Ymchwil a Thechnoleg

Yn ddiweddar cynhaliwyd Wythnos Llesiant Gwynedd, lle roedd dros 50 o sefydliadau lleol wedi dod ynghyd i gynnig gweithgareddau llesiant i bobl ifanc. Treialodd y Gwasanaeth dechnoleg TG newydd sef plattform 'Haia' fel ffurf arloesol i gynnig y gwasanaeth. Mae 'Haia' yn plattform digwyddiadau hybrid (cyfuno gweithgareddau ar-lein a wyneb yn wyneb. Bu i'r Wythnos Llesiant a'r plattform Haia ein galluogi i gynnig y ddarparaeith drwy gyfrwng y Gymraeg. Mi oedd defnyddio'r plattform yma wedi ein helpu i ehangu y gweithgareddau, a cyrraedd pobl ifanc, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Adran wedi bod yn cydweithio gyda Tim Llesiant y CYngro i ddabtygu app ar gyfer cefnogi gofawyr ifanc. Lansiwyd Ap Ai Di ym mis Mawrth ac mae'n ffordd hwylus i ofalwyr ifanc gadw cyswllt gyda'u hysgol, ac i'w ddefnyddio yn y gymuned i gael gostyngiadau ar weithgareddau a gwasanaethau.

<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :</b>	Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti
--	--

### **2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?**

Mae'r adran yn cynnwys gofynion iaith ar bob / mwyafrif o'n cytundebau 3ydd parti a caiff pob cytundeb ei fonitro yn rheolaidd rhwng Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr ar ran y darparwr. Mae rhai cytundebau sy'n ymwneud yn benodol gyda lleoliadau all sirol i gyfarch anghenion gofal dwys yn cael ei yrru gan y ddarpariaeth gyfyng iawn sydd ar gael ar draws Prydain. Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at y materion addysg drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn deillio o'r angen i leoli plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad all sirol sydd yn cyfarfod eu anghenion gofal. Ar yr adegau yma mae angen gwneud penderfyniad ar leoliad addas yn seiliedig ar anghenion gofal a diogelu fel y prif flaenoriaeth.

Mae ein cytundebau allanol yn amrywiol iawn ee darparu lleoliad gofal arbenigol i blentyn, i gynnig cefnogaeth i ofalwyr ifanc, i ddarparu gwasanaethau rhianta ac ymyrraeth gynnar ar ein rhan. Rydym hefyd yn cydweithio gyda darparwyr lleol i adeiladu arbenigeddau mewn gwaith cefnogi plant a theuluoedd er mwyn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ee cwnsela, a chyflafareddu teuluol yn lleol.

<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :</b>	Gweithredu'n ddwyieithog
--	--------------------------

### **3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?**

**Recriwtio** - Mae problemau recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn fater sy'n peri pryder i'r adran. Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o orfod recriwtio gweithwyr cymdeithasol di-Gymraeg a/neu ddefnyddio gweithwyr cymdeithasol di-Gymraeg drwy asiantaeth er mwyn gallu darparu gwasanaeth mae'r adran wedi mynd ati i ddatblygu Cynllun Gweithlu. Mae ymgyrchoedd

recruiwio amrywiol wedi eu gwneud gan yr adran a drwy Gofalwn Cymru, a rydym wedi denfyddio pwysgriwydd y gallu i siarad Cymraeg i'n denfyddwyr gwasanaeth, a'r gallu i fyw mewn cymunedau natuil Cymraeg yn rhan o'r pecyn recruiwio hwnnw.

**Cyfarfodydd** - Mae cydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda partneriaid yn gallu bod yn heriol ar adegau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gyda partneriaid. Nid yw nifer o'n partneriaid yn cynnig darpariaeth gyfieithu / Cymraeg mewn cyfarfodydd rhithiol. Rydym hefyd yn methu a cynnal rhai cyfarfodydd rhithiol yn ddwyieithiog oherwydd na ellir gwarantu dioglewch seibr i warchod y trafodeathu a gynhelir / gyfieithir drwy bltaform megis Zoom. Rydym yn cynnal y mwafrif o'n cyfarfodydd aml asiantaethol yn ddwyieithog, gyda chefnogaeth ardderchog gan Uned Gyfieithu'r Cyngor.

**Darpariaeth / Lleoliadau tu hwnt i Wynedd a Chymru** – Rydym eisoes wedi cyfeirio at y cyfyngiadau sydd arnom wrth sicrhau lleoliad gofal dwys i blentyn o Wynedd y tu allan i'r sir. Yn yr un modd rydym hefyd yn bryderus am anghenion ieithyddol troseddwyr ifanc sydd yn derbyn dedfryd o garchar. Nid oes gennym fel Gwasanaeth Cyfiawnder / Adran unrhyw reolaeth dros ddynodi lleoliad y ddedfryd, a gall person ifanc fynd i unrhyw leoliad drwy'r DU sy'n gwanhau cysylltiad person ifanc gyda'i deulu, iaith, diwylliant. Yr ydym wedi cynnwys y mater yma ar ein Cofrestr Risg Adrannol gan ein bod yn credu fod pobl ifanc o Wynedd yn cael eu rhoi dan anfantais o ran eu dewis a'u defnydd o'u hiaith gyntaf mewn carchar.

<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :</b>	Datblygu cyfleoedd newydd
--	---------------------------

**4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?**

Mae'r Adran yn parhau i hyrwyddo a chefnogi y defnydd o'r Gymraeg ymhob un o'r gwasanaethau. Mae darparu gwasanaethau i gymunedau Gwynedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth.

Byddwn yn parhau i sicrhau fod ein holl ymwneud â'n partneriaid yn gwbl ddwyieithog ac yn hyrwyddo pwysigrwydd y defnydd o'r iaith a'r dewis iaith i drigolion y Sir, a thrwy hynny ddylanwadu ar ymarfer mewn sefydliadau tu allan i'r Cyngor.

Byddwn yn parhau i annog unrhyw aelod o staff y gwasanaeth i fynychu cyrsiau i ddysgu'r iaith neu i loywi iaith er budd trigolion Gwynedd ac rydym eisoes yn arddel yr arfer o sicrhau fod y staff sydd yn ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, unai i gyflwyno eu hunain neu i gyflwyno eitem yn y Gymraeg er mwyn adeiladu hyder mewn amgylchedd ddiogel. Yr ydym yn gwybod fod hyn yn talu ar ei ganfed a bod iaith yn datblygu drwy hyder a chefnogaeth cydweithwyr.

# Eitem 10

<b>CYFARFOD</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>20 Mehefin 2022</b>
<b>TEITL</b>	<b>Diwygio Polisi Iaith y Cyngor</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Gwenllian Mair Williams Ymgynghorydd Iaith</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Cyflwyno diwygiad o Bolisi iaith y Cyngor er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor ei drafod a'i gymeradwyo i symud ymlaen i gael cymerdwyaeth y Cabinet.</b>

## 1. Cefndir

- 1.1 Mae ymrwymiad statudol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn cael eu diffinio dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith a osodwyd ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 1.2 Cafodd y Polisi cyfredol ei ysgrifennu a'i gymeradwyo yn 2016 mewn ymateb i osod y Safonau iaith. Roedd yn fodd o ateb y gofynion o fewn y Safonau i "*ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso'r Gymraeg*" (Safon 98) ac i gael dogfen sydd yn esbonio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio gyda'r gwahanol ddsbarthiadau o Safonau (Safon 171 ac eraill).
- 1.3 Ar yr un pryd, roedd awydd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gweithredu'r Safonau yn gwanhau yr ymrwymadau oedd wedi eu gosod yn y Cynllun Iaith blaenorol, ac yn benodol felly yr ymrwymiad i weinyddiaeth fewnol Gymraeg, i fod yn hybu'r Gymraeg ac i fod yn gwneud y cynnig rhagweithiol Cymraeg drwy ei holl wasanaethau.
- 1.4 Lluniwyd y polisi felly gyda'r bwriad o esbonio sut y bydd gwasanaethau'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r Safonau wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac hefyd i adlewyrchu egwyddorion ac uchelgais y Cyngor ar gyfer y Gymraeg, a'r bwriad i weithredu o blaid y Gymraeg.

## 2. Y newid i'r Polisi

- 2.1 Yn ystod 2020, dechreuwyd edrych ar adolygiadau posib i'r polisi iaith. Cymerwyd y cam hwn am fod teimlad bod newidiadau mawr wedi bod yn y modd y mae'r Cyngor yn

gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ers i'r Polisi cyfredol gael ei lunio yn 2016.

2.2 Roedd teimlad nad oedd rhai rhannau o'r Polisi yn rhoi arweiniad digon clir a chadarn i staff, ac nad oedd yn cwmpasu'r holl sefyllfaoedd y mae gwasanaethau yn delio gyda nhw o ddydd i ddydd. Nid oedd cymalau penodol, er enghraifft, yn delio gyda'r modd y caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio yn systemau TG y Cyngor. Roedd y newidiadau oedd wedi eu gwneud i'r drefn recriwtio hefyd angen eu hadlewyrchu yn y polisi.

2.3 Manteisiwyd ar y cyfle felly i wneud adolygiad trylwyr o'r Polisi. Mae'r newidiadau sydd yn cael eu cynnig yma yn amrywio o:

- fan newidiadau gweinyddol
- creu cymalau newydd
- rhoi arweiniad ar feysydd sydd ddim o reidrwydd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Safonau,
- gosod cymalau sydd yn gosod egwyddorion allweddol yn glir er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cymryd pob cyfle i hybu'r Gymraeg.

### 3. Cymalau neu adrannau newydd

3.1 Mae rhai cymalau wedi eu hychwanegu o'r newydd i'r polisi a rhai adrannau lle mae newidiadau mwy sylweddol wedi eu gwneud i gynnwys y polisi blaenorol. Nodwn isod felly y prif newidiadau er gwybodaeth i chi:

- **Egwyddorion cyffredinol** – mae'r rhain wedi eu cynnwys ar ddechrau pob adran er mwyn bod yn esboniad byr a chryno o'r amcan cyffredinol. Gofynnir i chi ystyried a ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddorion hyn.
- **Adran 5 - Gwasanaethau digidol – gwefan, apiau a hunanwasanaeth** – mae'r adran hon wedi ei newid yn sylweddol er mwyn rhoi gwell arweiniad i staff am ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwahanol ffyrdd y defnyddir technoleg yng ngwaith y Cyngor.
- **Adran 6 – Arwyddion** – cymal newydd wedi ei ychwanegu i adlewyrchu ymrwymiad a gwaith y prosiect enwau lleoedd i arddel a hyrwyddo'r fersiynau Cymraeg o enwau lleoedd.
- **Adran 12 - hysbysebu swyddi a'r broses recriwtio** – adran wedi ei newid yn sylweddol. Mae hon eisoes wedi ei chyflwyno a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Iaith, ond gan ei fod yn un o newidiadau mwyaf y polisi rydym yn tynnu eich sylw ato yma hefyd.
- **Adran 135 – Atebolrwydd** - sydd yn esbonio pwy sydd yn atebol i'r polisi a beth yw cyfrifoldeb yr Aelodau Etholedig ac aelodau'r Pwyllgor Iaith.

#### **4. Camau nesaf**

- 4.1 Wedi iddo gael ei ystyried a'i drafod gan y Pwyllgor Iaith, bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.
- 4.2 Bydd adborth gan y Penaethiaid Adrannau yn cael ei ystyried ac unrhyw addasiadau yn cael eu gwneud i'r ddogfen cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.
- 4.3 Bydd unrhyw adborth neu sylwadau a dderbynnir gan y Pwyllgor Iaith hefyd yn cael eu hystyried gan y Swyddogion, ac unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r ddogfen cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

#### **5. Argymhelliad**

Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor Iaith ar y ddogfen ddrafft a gofynnir am eu cymeradwyaeth i symud ymlaen gyda'r broses drwy gyflwyno'r Polisi – gydag unrhyw addasiadau priodol – i Gabinet y Cyngor fel y cam nesaf i'w gymeradwyo.



## POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR GWYNEDD 2022

### DRAFFT

#### 1. RHAGAIR

Cyhoeddir y Polisi Iaith hwn yn unol â blaenoriaethau Cyngor Gwynedd a'r gofynion a osodir ar y Cyngor dan Safonau'r Gymraeg, Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Diben y polisi yw nodi sut y bydd y Cyngor a'i weithwyr yn mynd ati i gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Bydd hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith.

Mae helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei nodi fel un o flaenoriaethau gwella Cyngor Gwynedd yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r flaenoriaeth honno yn ategu nod y Cynllun Llesiant i "gael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg".

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo drwy ei strategaeth hybu – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd - i gymryd camau rhagweithiol i hybu'r iaith a chynyddu cyfleoedd i bobl Gwynedd ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau.

#### 2. AMCANION CYFFREDINOL Y POLISI

Drwy weithredu yn unol a'r polisi hwn, felly, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau:

- Bod gweithlu cyfan y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Bod hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn adlewyrchu ei ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg.
- Y bydd staff yn manteisio ar bob cyfle i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg defnyddwyr gwasanaethau.
- Y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth ddapraru

gwasanaethau, gan sicrhau bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn unol a'u dewis personol, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod y dewis iaith hwnnw yn cael ei nodi a'i barchu bob amser.

- Y bydd gwasanaethau neu weithgareddau sydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu cymunedau yn cael eu hyrwyddo yn briodol ac effeithiol.
- Y rhoir cyfrifoldeb ar **holl** Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.
- Bod pob corff allanol yn cael eu cymell i gyfathrebu gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog.
- Bod disgwyl i unrhyw gyrff neu fusnesau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor wneud hynny yn unol â'r Safonau a osodir ar y Cyngor ei hun. Bydd disgwyliadau clir yn cael eu gosod mewn cytundebau gwasanaeth a threfniadau monitro priodol yn cael eu sefydlu a'u dilyn.
- Y bydd ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar y Gymraeg a defnydd ohoni o fewn cymunedau'r sir yn rhan allweddol o drefniadau asesu effaith ehangach y Cyngor. Nid yw'r Gymraeg wedi cael ei nodi fel nodwedd Cydraddoldeb, ond serch hynny, mae'r Cyngor yn gweld bod perthynas agos rhwng materion cydraddoldeb ac iaith, y ffordd rydym yn ystyried effaith a phwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg a materion cydraddoldeb. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Cynllun Llesiant Lleol, hefyd yn rhoi lle allweddol i'r Gymraeg wrth ystyried llesiant a chynladwyedd ein cymunedau. O ganlyniad, mae fframwaith asesu effaith wedi ei datblygu sydd yn cwmpasu'r meysydd hyn i gyd – cydraddoldeb, llesiant ac iaith – gan sicrhau bod ystyried pwysigrwydd gwasanaethau Cymraeg wedi ei brif-ffrydio o fewn y trefniadau hynny.

### **3. Y POLISI – GWEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG YNG NGWAITH Y CYNGOR**

#### **ADRAN 1. GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG**

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1,4,5,6, 7)



## EGWYDDORION CYFFREDINOL

*Byddwn yn parchu rhyddid yr unigolyn/ cyhoedd i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu Saesneg.*

*Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gofnodi dewis iaith, ac i gyfathrebu yn unol â'r dewis hwnnw.*

*Byddwn yn annog unigolion a chyrrff eraill i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu efo ni.*

- 1.1 Dylai aelodau staff y Cyngor ateb pob llythyr yn yr un iaith ag mae wedi ei ysgrifennu yn wreiddiol, ac yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol, sef cydnabod yr ohebiaeth o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 15 diwrnod gwaith.
- 1.2 Os oes angen gohebu (dros ebost neu lythyr) ar ôl siarad gyda rhywun wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, dylai unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig yn dilyn y dewis iaith yn y sgwrs wreiddiol, neu yn yr iaith a ddewiswyd gan y defnyddiwr os ydyn nhw wedi dweud yn benodol yr hoffent gael gwybodaeth ysgrifenedig mewn iaith wahanol i'w dewis llafar.
- 1.3 Dylai unrhyw ohebiaeth dorfol gael ei anfon yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys unrhyw lythyr sydd yn cael ei anfon at fwy nag un person yn defnyddio'r un templed (nid oes rhaid iddynt gael eu hanfon ar yr un pryd) - fel ymatebion i geisiadau ar y system hunanwasanaeth.
- 1.4 Os bydd llythyrau yn cael eu hanfon o system gyfrifiadurol/hunanwasanaeth lle mae dewis iaith wedi ei nodi a lle mae'r wybodaeth wedi ei bersonoli mewn rhyw ffordd, er enghraifft drwy ddefnyddio cyfeirnod achos, nid oes rhaid anfon yn ddwyieithog a gellir anfon yn newis iaith yr unigolyn.
- 1.5 Pan fydd aelod o staff yn cychwyn gohebiaeth efo unigolyn, cymdeithas neu gwmni ar ffurf llythyr neu e-bost, dylent ysgrifennu'r ohebiaeth honno yn ddwyieithog. Gallant ysgrifennu yn Gymraeg yn unig os ydynt yn gwybod i sicrwydd bod y derbynydd yn gallu'r Gymraeg ac yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.
- 1.6 Dylai aelodau staff y Cyngor bob amser ysgrifennu at gyrff cyhoeddus a chyrrff sydd wedi eu datganoli yng Nghymru **yn y Gymraeg yn unig**.
- 1.7 Os bydd corff arall sydd hefyd yn atebol i'r Safonau Iaith (yn enwedig awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru) yn anfon gohebiaeth uniaith Saesneg, dylai aelodau staff y Cyngor ofyn am gopi Cymraeg o'r ohebiaeth cyn ymateb i'r corff yn Gymraeg. Os na dderbynnir gohebiaeth Gymraeg wedi gwneud cais amdano, dylid ymateb i'r ohebiaeth yn Gymraeg a rhoi gwybod i'r Uned Iaith a Chraffu.
- 1.8 Dylai aelodau staff y Cyngor gynnwys datganiad ar unrhyw ohebiaeth yn nodi bod coreso i'r cyhoedd gyfathrebu efo chi yn Gymraeg ac na fydd cyfathrebu yn Gymraeg

yn arwain at unrhyw oedi.

- 1.9 Dylid sicrhau cywirdeb unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon. Anogir holl staff y Cyngor i ddefnyddio rhyngwyneb Cymraeg Windows a CySill ac i ddefnyddio iaith glir a syml.

## **ADRAN 2. GWASANAETHAU FFÔN**

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17,18, 20, 21, 22)

### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

*Bydd y Cyngor yn sicrhau bod posibil delio gydag unrhyw ymholiad yn llawn yn y Gymraeg wrth i'r cyhoedd gysylltu ar y ffon.*

- 2.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod posibil i unrhyw aelod o'r cyhoedd gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg wrth gysylltu gyda nhw dros y ffôn.
- 2.2 Bydd pob aelod o staff rheng flaen a phob system ateb electronig awtomatig – a hynny yn y Pencadlys, y swyddfeydd rhanbarth a mannau cyhoeddus eraill y Cyngor - yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn y Gymraeg yn gyntaf ac yna yn y Saesneg) ac mewn ffordd groesawgar.
- 2.3 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyfarch yn y Gymraeg wrth ateb galwadau gan y cyhoedd.
- 2.4 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn galw ac eisiau delio efo'u ymholiad yn Gymraeg, ond nad yw'r swyddog sy'n ateb yr alwad yn gallu siarad Cymraeg yn ddigon rhugl i ymdrin â'r mater **yn llawn**, dylai'r swyddog egluro hynny wedi cyfarch y galwr, a chynnig trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff fydd yn gallu ymdrin â'r mater yn llawn yn newis iaith y galwr. Mewn achosion lle bo'r swyddog sy'n ateb galwad yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg hyd eithaf ei (g)allu.
- 2.5 Bydd negeseuon ar holl beiriannau ateb y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg i'w chlywed gyntaf.
- 2.6 Pan fydd aelod o staff yn ffonio aelod o'r cyhoedd, ac yn cysylltu am y tro cyntaf, bydd yn gwneud yn siŵr ei fod yn ymwybodol o ddewis iaith yr unigolyn, gan wneud cofnod o hynny os oes angen er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw alwadau ffon gan y gwasanaeth yn y dyfodol hefyd yn cael eu gwneud yn Gymraeg.

### **ADRAN 3. CYFARFODYDD - YN CYNNWYS Y CYHOEDD A STAFF ALLANOL**

(Safonau 23, 25, 27, 27A, 27CH, 28, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36)

#### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

*Y Gymraeg yw prif iaith weithredol y Cyngor. Bydd pob cyfarfod a drefnir gan staff y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.*

*Annogir mynychwyr i gyfarfodydd y Cyngor i gyfrannu yn Gymraeg, ond byddwn hefyd yn parchu ac yn hwyluso dewis iaith.*

*Bydd y Cyngor yn trefnu cyfieithu ar y pryd lle bo'r angen er mwyn gwneud yn siŵr bod mynychwyr di-Gymraeg yn gallu dilyn y cyfarfod a chymryd rhan yn llawn.*

*Yn unol â nod y Cyngor, ceisir sicrhau bod staff dwyieithog ar gael bob amser er mwyn cynnal cyfarfodydd yn unol â dewis iaith yr aelod o'r cyhoedd. Gan fod mwyafrif helaethaf staff y Cyngor yn ddwyieithog, ni ddylid bod mewn sefyllfa o orfod newid iaith cyfarfod gydag aelod o'r cyhoedd i'r Saesneg.*

- 3.1 Dylai swyddogion sicrhau bod unrhyw un a gaiff eu gwahodd i gyfarfod **mewnol** yn y Cyngor yn ymwybodol bod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid rhoi cyfle iddynt nodi a ydynt yn dymuno cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a dyletswydd swyddogion y Cyngor fydd sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael os oes angen er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn parhau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.2 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfod sydd yn ymwneud â **llesiant** (h.y. unrhyw faerion personol), ac yn dymuno trafod y materion hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid** cynnal y cyfarfod yn unol â dewis iaith yr unigolyn.
- 3.3 Rhaid i swyddogion y Cyngor sicrhau bod unrhyw staff (o'r Cyngor ei hun neu unrhyw gorff/asiantaeth arall) sy'n bresennol mewn cyfarfodydd llesiant yn gallu'r Gymraeg, ac os nad ydynt, bod trefniadau yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn amharu o gwbl ar y gallu i gynnal y cyfarfod hwnnw yn y Gymraeg os mai dyna ddymuniad yr unigolyn. **NI DDYLID** newid iaith y cyfarfod er lles swyddogion.
- 3.4 Y Gymraeg fydd prif iaith unrhyw gyfarfodydd **cyhoeddus** a gynhelir gan y Cyngor. Pan fydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod, gwrandawiadau neu ymchwiliad cyhoeddus, dylai swyddogion gyflwyno ac arwain y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.5 Mae gan y cyhoedd hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis, mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus sydd yn cael ei drefnu gan y Cyngor, a bydd gwasanaeth cyfieithu yn cael ei drefnu er mwyn sicrhau bod modd i rai nad ydynt yn deall a siarad Cymraeg allu deall a chyfrannu yn effeithiol tuag at y cyfarfod.

- 3.6 Bydd disgwyl i gadeiryddion neu swyddogion arweiniol unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus dynnu sylw at y ffaith bod cyfieithu ar y pryd ar gael ar gychwyn y cyfarfod, ac annog mynychwyr i ddefnyddio'r offer er mwyn hybu dewis iaith.
- 3.7 Disgwylir i bob dogfen sydd yn ymwneud â chyfarfod cyhoeddus gael ei greu a'i gyhoeddi yn ddwyieithog. Bydd hefyd angen sicrhau bod pob rhaglen, gwahoddiad neu hysbyseb ar gyfer y cyfarfod yn cynnwys datganiad sydd yn nodi mai Cymraeg fydd iaith y cyfarfod cyhoeddus ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r rhai sydd yn dymuno cyfrannu a dilyn y cyfarfod drwy gyfrwng y Sasneg.
- 3.8 Disgwylir i swyddogion y Cyngor gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau a drefnir gan awdurdodau neu sefydliadau cyhoeddus eraill, ac fe'u hanogir i sicrhau bod darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei gynnig gan y trefnwyr er mwyn eu galluogi i allu cyfrannu os bydd angen.
- 3.9 Bydd unrhyw weithgareddau neu hyfforddiant a gynhelir gan y Cyngor ar gyfer y cyhoedd yn cael ei gynnig yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. (Safon 84)

#### **ADRAN 4 - CYHOEDDIADAU A DEUNYDD YSGRIFENEDIG**

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 38, 40, 48, 49, 50, 50A, 50B, 51, 52, 55, 56)

#### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Y Gymraeg yw prif iaith weithredol y Cyngor, sydd yn golygu mai'r Gymraeg gaiff flaenoriaeth wrth ysgrifennu adroddiadau a dogfennau mewnol.***

***Bydd holl ddogfennau cyhoeddus y Cyngor - sy'n cynnwys adroddiadau, cynlluniau, posterï, ffurflenni a deunyddiau esboniadol, hysbysiadau i'r Wasg, hysbysiadau cyhoeddus a dogfennau ymgynghori - ar gael yn Gymraeg a Saesneg.***

***Bydd unrhyw ddogfennau swyddogol sydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar gael yn y ddwy iaith, gyda'r gallu i symud yn rhwydd o un fersiwn i'r llall.***

***Ni fydd y Cyngor yn cyhoeddi/rhannu dogfennau uniaith Saesneg, ar bapur nac ar wefan y Cyngor, oni bai bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael ar yr un pryd.***

***Gwneir pob ymdrech i greu dogfennau byr yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gweld y Gymraeg ar bob cyfle posib.***

- 4.1 Bydd swyddogion yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sydd wedi ei

fwriadu ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys deunydd ysgrifenedig wedi ei argraffu a deunydd a gaiff ei rannu yn electronig.

- 4.2 Bydd unrhyw daflenni sy'n cael eu hanfon i'r trigolion yn ddwyieithog ac yn cael eu rhoi mewn amlenni mewn modd sy'n sicrhau mai'r Gymraeg sydd i'w gweld gyntaf wrth agor.
- 4.3 Os bydd Swyddogion yn rhannu deunydd ysgrifenedig gan sefydliadau eraill (naill ai ar ffurf dogfennau, neu drwy gyfeirio at ffynonellau eraill fel gwefannau) disgwylir i'r swyddogion wneud pob ymdrech i sicrhau bod y deunydd hwnnw ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Os bydd dogfennau yn cael eu rhannu fel rhan o waith ymgynghori, ac nad yw'r sefydliad allanol yn gallu darparu copiâu dwyieithog, rhaid gwneud trefniadau i'w cyfieithu yn fewnol cyn rhannu y dogfennau yn gyhoeddus.
- 4.4 Dylai swyddogion sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn safonol ei ffurf a'i arddull, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ran ffurf, maint, ansawdd ac eglurder. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw ddeunydd yn ddealladwy ac yn eglur i'r cyhoedd, ac yn dilyn egwyddorion Cymraeg Clir / Plain English.
- 4.5 Dylid rhoi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg mewn unrhyw ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus. Mae hynny yn golygu y bydd y testun Cymraeg yn cael ei osod naill ai uwchben neu ar y chwith i'r testun Saesneg.
- 4.6 Dylid ceisio dylunio unrhyw daflenni, pamffledi, a dogfennau fydd yn cael eu rhannu yn gyhoeddus fel fersiynau printiedig mewn ffordd fydd yn sicrhau bod y ddwy iaith yn ymddangos efo'i gilydd. Gall hyn fod yn destun dwyieithog ar yr un dalen neu yn ddogfen gyda'r ddwy iaith wedi eu hargraffu gefn wrth gefn.
- 4.7 Pe byddai rhaid i'r Cyngor, am unrhyw reswm, (e.e. maint dogfen, cyhoeddi ar y wefan) gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, a bydd y fersiwn Saesneg yn nodi yn glir bod fersiwn Gymraeg ar gael er mwyn annog trigolion i fynd at y fersiwn Gymraeg.
- 4.8 Dylid sicrhau bod unrhyw ddogfennau sydd yn cael eu **hargraffu** fel fersiynau papur Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gael gyda'i gilydd ac mai'r fersiwn Gymraeg sydd yn cael ei gynnig gyntaf i'r cyhoedd.
- 4.9 Bydd unrhyw arwyddion a gaiff eu gosod mewn unrhyw fan cyhoeddus sydd dan ofal y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn dilyn oddi tannodd.
- 4.10 Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw hysbysiadau neu bosteri gan gyrff a chwmnïau eraill fydd yn cael eu harddangos yn eiddo ac adeiladau'r Cyngor hefyd yn Gymraeg neu yn dddwyieithog. Ni chaniateir arddangos posterï uniaith Saesneg yn adeiladau'r Cyngor.

- 4.11 Bydd pob datganiad i'r wasg neu i'r cyfryngau gan y Cyngor yn ddwyieithog.
- 4.12 Bydd ymateb i ymholiadau gan y wasg neu'r cyfryngau yn cael ei anfon yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn ddibynnol ar iaith y gohebydd perthnasol.
- 4.13 Bydd yr holl ddeunydd a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth, i farchnata, i hyrwyddo ac i ddenu buddsoddiad i'r ardal yn nodi a chydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.
- 4.14 Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan neu ar ran y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog, gan gynnwys arddangosfeydd, stondinau gwybodaeth a chynadleddau. Golyga hyn y bydd unrhyw waith hysbysebu, cyhoeddi neu ymchwil yn gwbl ddwyieithog.
- 4.15 Caniateir yr eithriadau canlynol i'r cymalau uchod:
- a) Dogfen sydd yn ymwneud yn benodol gyda gweithgarwch sydd a'i brif fwriad i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a/neu sydd yn ymwneud â digwyddiad sydd yn cefnogi iaith a diwylliant yr ardal. Gall hyn gynnwys digwyddiadau megis gweithareddau'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol neu weithgareddau gan bartneriaid hyrwyddo'r Gymraeg.
  - b) Datganiadau neu hysbysebion ar gyfer rhaglenni radio neu deledu ar sianeli Cymraeg eu hiaith.
  - c) Hysbysiadau yn y wasg Gymraeg, fydd yn ymddangos un uniaith Gymraeg.
- 4.16 Disgwylir i unrhyw ddogfennau neu ddatganiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer cynulleidfa y tu allan i Gymru, neu hysbysbeion ar gyfer sianeli radio a theledu y tu allan i Gymru gynnwys rhywfaint o Gymraeg. Fel ymgais i hyrwyddo'r iaith fel rhan greiddiol o hunaniaeth a diwylliant y sir, ni chaniateir cyhoeddi deunyddiau yn gyfan gwbl yn Saesneg yn unig.
- 4.17 Disgwylir i hysbysebion a chyhoeddusrwydd ar ran trydydd parti a fo'n ymddangos ar eiddo, tir neu adeilad y Cyngor ddilyn y canllawiau uchod. Lle bu cytundeb rhwng y Cyngor a pharti arall ar gyfer defnyddio eiddo, tir neu adeilad y Cyngor, bydd amod i'r perwyl hwn yn y cytundeb, yn cynnwys cyhoeddusrwydd cysylltiedig (e.e. posteri, hysbysebion).

## **ADRAN 5 - GWASANAETHAU DIGIDOL – GWEFAN, APIAU A HUNANWASANAETH**

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 56, 57, 58, 59, 60)

### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

*Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob app a system electronig a ddefnyddir ganddynt er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn gweithio yn gyfangwbl ddwyieithog.*

*Bydd y Cyngor yn ystyried datblygu apiau a systemau eu hunain lle bo'n bosib er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn gyfangwbl ddwyieithog, a bod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw.*

*Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gyhoeddir yn electronig yn dilyn y canllawiau a nodir ar gyfer deunydd ysgrifenedig uchod.*

*Bydd modd symud o fersiynau Cymraeg a Saesneg tudalennau'r wefan yn rhwydd, a bydd datganiadau yn nodi yn glir bod fersiwn Cymraeg ar gael os bydd dogfennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân heb y gallu i doglo.*

- 5.1 Bydd unrhyw wefannau a ddatblygir gan y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, yn llywio'r defnyddiwr at y dudalen Gymraeg yn gyntaf lle bo modd, ac yn caniatáu symud yn hwylus rhwng y tudalennau cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg.
- 5.2 Bydd unrhyw gyfrifon ar wefannau cymdeithasol (megis Facebook a Twitter) yn dilyn y canllawiau sydd ar gael gan yr Uned Gyfathrebu ac yn cyflwyno gwybodaeth yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf bob amser.
- 5.3 Bydd unrhyw ymateb i negeseuon neu sylwadau a dderbynir ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hysgrifennu yn yr un iaith, felly bydd pob sylw Cymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg.
- 5.4 Bydd unrhyw ffurflenni neu holiaduron sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor drwy ddull hunanwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r unigolion yn dewis iaith wrth gofrestru ar gyfer y gwasanaeth.
- 5.5 Bydd unrhyw lythyrau neu ymateb i geisiadau drwy y system hunanwasanaeth ar-lein yn cael eu hanfon yn yr iaith a ddewiswyd gan y defnyddiwr.
- 5.6 Bydd unrhyw beiriannau hunanwasanaeth a ddefnyddir mewn lleoliadau gwasanaeth yn gweithio yn gyfan gwbl ddwyieithog, ac os yn bosib yn cynnig y Gymraeg fel y dewis cyntaf/yr iaith ddi-ofyn.
- 5.7 Wrth gomisiynu neu brynu systemau TG newydd i'w defnyddio fel rhan o ddarparu

gwasanaeth i'r cyhoedd, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau mynediad cyfartal i bawb, ac yn sicrhau nad oes angen cymryd camau ychwanegol i ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg, a fyddai yn golygu ein bod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 5.8 Os bydd unrhyw Adran neu wasanaeth o fewn y Cyngor yn comisiynu/prynnu systemau newydd eu hunain i'w defnyddio fel rhan o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, disgwylir iddynt ymgynghori gyda'r gwasanaeth TG, tîm y We a'r Uned Iaith a Chraffu er mwyn sicrhau bod y systemau yn cyd-fynd gyda'r gofynion uchod ac yn cael eu profi yn ddigonol cyn eu defnyddio.

## **ADRAN 6 -ARWYDDION**

**(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 61, 62, 63, 141, 142, 143)**

- 6.1 Bydd pob arwydd a osodir mewn man cyhoeddus gan y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Mae hyn yn cynnwys arwyddion a osodir mewn adeiladau'r Cyngor a lleoliadau gwasanaeth ac hefyd arwyddion cyhoeddus ar stryd/ffordd.
- 6.2 Bydd swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod yr iaith a'r ystyr yn glir ar unrhyw arwyddion, poster, hysbysiadau gwybodaeth.
- 6.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw ddarparwyr neu gontractwyr trydydd parti yn defnyddio arwyddion dwyieithog hefyd sydd yn dilyn yr un egwyddor o ran amlygrwydd a chwirdeb y Gymraeg.
- 6.4 Bydd y Cyngor yn ymrwmo i ddefnyddio, hyd eithaf eu gallu, enwau Cymraeg ar leoliadau ac aneddeleoedd lle mae enwau Saesneg hefyd yn bodoli. Bydd arwyddion o'r newydd yn cael eu gosod yn Gymraeg yn unig, a newidiadau i hen arwyddion dwyieithog yn cael eu hystyried fel bo'n briodol, ac wrth eu hadnewyddu.

## **ADRAN 7 - DERBYNFEYDD**

**(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 64, 67, 68,69)**

### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Dilynir egwyddor y cynnig rhagweithiol a bydd pob aelod o staff rheng flaen ar dderbynfeydd y Cyngor yn cychwyn y sgwrs yn y Gymraeg.***

- 7.1 Bydd modd i'r cyhoedd gael gwasanaeth dwyieithog llawn ym mhob un o dderbynfeydd cyhoeddus y Cyngor. Mae hyn yn golygu y bydd pob cynghorydd cwsmer a chrosawydd mewn derbynfeydd llyfrgelloedd, ysgolion ac ati yn gallu cyfathrebu yn ddwyieithog.
- 7.2 Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn nerbynfeydd ac unrhyw fannau gwasanaeth cyhoeddus y Cyngor fydd yn nodi'n glir bod modd cael gwasanaeth



Cymraeg er mwyn annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac er mwyn sicrhau bod dewis iaith yn cael ei nodi a'i barchu.

- 7.3 Anogir, ble bo'n briodol, i staff derbynfydd a mannau gwasanaeth cyhoeddus wisgo bathodynau neu gortynnau gwddf "Cymraeg"/Iaith Gwaith fydd yn galluogi'r cyhoedd i wybod lle mae siaradwyr neu ddysgwyr Cymraeg all roi gwasanaeth cyfrwng Cymraeg iddynt.

## **ADRAN 8 - GRANTIAU A CHEFNOGAETH ARIANNOL**

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 71, 72, 72A, 73, 75)

### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

*Mae gan y Cyngor is-bolisi i'r Polisi Iaith hwn sydd yn gosod y disgwyliadau o ran dyfarnu grantiau, ac sydd yn ateb gofyn Safon 94. Bydd disgwyl i staff ddilyn yr is-bolisi hwnw wrth ystyried unrhyw drefniadau lle mae grantiau neu gymorth ariannol yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd.*

- 8.1 Defnyddir unrhyw nawdd neu grant gan y Cyngor fel un arf cyhoeddus ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn lleol. Gall hyn fod drwy gynyddu defnydd llafar, dydd i ddydd, o'r Gymraeg neu drwy hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol.
- 8.2 Bydd amodau am ddefnydd iaith yn cael eu gosod o fewn unrhyw gytundebau grant, yn unol â natur y grant a'r gweithgarwch sydd yn cael ei ariannu.
- 8.3 Bydd y Cyngor yn disgwyl i sefydliadau, mudiadau, cyrff ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned fusnes yn lleol wneud hynny'n ddwyieithog, ac yn unol â goynion y Polisi hwn a Safonau'r Gymraeg.
- 8.4 Bydd y Cyngor yn disgwyl i fusnesau sydd yn derbyn grantiau neu gymorth ariannol fod yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r Gymraeg, ei defnyddio yn weledol yn y busnes, ac i gynnig cyfleoedd gwaith lle mae sgiliau Cymraeg yn cael eu cydnabod.
- 8.6 Bydd pob gohebiaeth yn ymwneud â dyrannu grantiau neu dendrau gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.
- 8.7 Bydd yr holl brosesau sydd yn ymwneud efo dyfarnu grantiau a chymorth ariannol yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, a bydd posib i unrhyw un gael cyfarfod neu cyfweliad yng nghyd-destun grantiau neu gymorth ariannol yn Gymraeg. Cyfrifoldeb swyddogion y Cyngor fydd sicrhau bod cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os bydd angen.

## **ADRAN 9 – PROSESAU CAFFAEL A TENDRO (CYD-DDARPARU, COMISIYNU AC ALLANOLI GWASANAETHAU)**

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 76, 77, 77A, 78, 80)

### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

*Mae trefniadau cyd-ddarparu a chyd-ariannu gwasanaethau, yn ogystal ag allanoli gwasanaethau, yn cael eu defnyddio fwyfwy gan y Cyngor ac yn allweddol i'r dyfodol. Wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, bydd y Cyngor yn gwarchod a sicrhau anghenion trigolion y Sir o safbwynt derbyn gwasanaethau dwyieithog.*

*Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda'n cyd-ddarparwyr ac i gydweithio tuag at well darpariaeth ddwyieithog ar draws yr holl wasanaethau.*

*Bydd sicrhau hawl unigolion i wasanaethau Cymraeg yn rhan greiddiol o unrhyw waith i allanoli neu osod cytundeb ar gyfer gwasanaethau.*

*Dilynir canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar osod contractau -- [c-gosod-contractau-gwasanaethau-cyhoeddus.pdf](https://www.gov.wales/gwasanaethau-cyhoeddus.pdf) ([comisiynyddygyymraeg.cymru](https://www.gov.wales/comisiynyddygyymraeg.cymru))*

- 9.1 Bydd unrhyw gytundebau darparu yn cyfeirio at y polisi hwn ac yn cynnwys cymalau fydd yn nodi'n glir y gofynion a'r disgwyliadau ar ddarparwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Polisi hwn.
- 9.2 Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd. Byddwn yn monitro'r cytundebau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- 9.3 Os bydd gwasanaeth yn cael ei allanoli, neu gytundeb/tendr yn cael ei roi i ddarparu gwasanaeth mewn adeilad sydd yn eiddo i'r Cyngor bydd disgwyl iddynt weithredu i'r un safonau a osodir yn y Polisi hwn, a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y busnes neu wasanaeth yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Os yn briodol, bydd y Cyngor yn gofyn i'r darparwr lunio polisi iaith annibynnol sydd yn adlewyrchu union natur y gwaith a gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig.
- 9.4 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol, ac asiantaethau eraill. Mewn unrhyw sefyllfa o gydweithio, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y sefydliadau oll yn gweithredu yn unol ag arweiniad Comisiynydd y Gymraeg (Canllaw Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus), ac y dylid cynllunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'r Safonau uchaf perthnasol mewn unrhyw sefyllfa o gyd-ddarparu. Dylid sicrhau felly nad yw unrhyw sefyllfa o gyd-ddarparu neu osod cytundeb i ddarparu gwasanaethau yn allanol yn mynd yn groes i

ofynion Safonau'r Gymraeg Cyngor Gwynedd, ac yn rhoi'r Cyngor mewn peryg o fethu cydymffurfio.

Bydd y Cyngor hefyd yn cymryd y camau canlynol:

- i. Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn weithredol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg.
  - ii. Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth, ac mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbyn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Polisi Iaith a bydd y Cyngor yn annog y partïon eraill i weithredu yn yr un modd.
  - iii. Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel rhan o gonsortia/cyd-bwyllgor, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'i Bolisi Iaith.
  - iv. Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Polisiâu Iaith, neu'r modd y maent yn gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn cynnig cyngor i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.
- 9.5 Gall y Cyngor gynorthwyo'r uchod, e.e. trwy gynnig cyngor ynglŷn â dwyieithrwydd a llogi offer cyfieithu.

## **ADRAN 10 - LLUNIO POLISI**

(Safonau Llundio Polisi 88, 89, 90, 91, 92, 93, 95, 96, 97)

### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

*Mae'r Cyngor yn gweld perthynas agos rhwng gofynion Safonau'r Gymraeg a materion cydraddoldeb. Mae disgwyl gwneud asesiad o effaith unrhyw bolisi neu weithdrefn newydd, neu newid i bolisi neu weithdrefn, sy'n cwmpasu materion cydraddoldeb, hawliau dynol ac economaidd-gymdeithasol yn ogystal â'r Gymraeg. Mae hyn yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'r holl ddyletswyddau yn y meysydd hyn.*

**Ceisir dilyn y Cyngor a nodir gan y Comisiynydd yn y ddogfen:**

[Safonau Llundio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg \(comisiynyddygybraeg.cymru\)](#)

10.1 Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau asesu effaith mewnol fydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ochr yn ochr â materion cydraddoldeb a lles wrth ystyried effaith unrhyw benderfyniadau neu gynlluniau ar y Gymraeg.

10.2 Bydd effeithiau ieithyddol tebygol unrhyw bolisi neu gynllun strategol newydd yn cael

ei asesu wrth gynllunio a datblygu'r polisi neu gynllun strategol, a bydd y polisi neu gynllun yn cael ei addasu fel bo'n briodol os bydd effaith negyddol posib yn cael ei adnabod er mwyn ceisio sicrhau yr effaith fwyaf cadarnhaol posib.

- 10.3 Pan fo'n briodol, bydd y Cyngor yn sefydlu trefniadau monitro ar gyfer cynlluniau strategol, er mwyn gallu mesur yr effaith, a chasglu tystiolaeth am y cyswllt rhwng y cynlluniau ac amcanion hybu iaith y Cyngor.
- 10.4 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw gynlluniau, menter neu bolisiau newydd yn cydfynd gydag ymrwymadau ehangach y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a bod pob cyfle yn cael ei gymryd i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymuendau'r sir.
- 10.5 Bydd Rheolwyr Gwasanaethau yn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei roi i effeithiau ieithyddol posib unrhyw benderfyniadau polisi wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu addasu polisi cyfredol. Bydd asesiadau yn cael eu cynnal ble bo'n briodol i sicrhau nad yw unrhyw bolisi newydd yn cael effaith andwyol neu negyddol ar gynhafiaeth y Gymraeg yn y sir.
- 10.6 Bydd angen sicrhau bod unrhyw waith ymchwil neu unrhyw ymgynghoriad a gynhelir yng nghyswllt llunio polisi newydd yn rhoi sylw teg i effeithiau ieithyddol posib unrhyw benderfyniadau.

## **ADRAN 11 - GWEITHREDIAD MEWNOL Y CYNGOR**

(Safonau Gweithredu 98, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 112A, 113, 115, 116, 116A, 117, 119, 120, 121, 124, 126, 128, 129, 141, 142, 143, 144)

### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

*Mae'r Cyngor yn gweithredu yn fewnol drwy gfyrrwng y Gymraeg yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod cyfarfodydd, a chyfathrebu mewnol yn digwydd yn Gymraeg. Bydd y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser mewn unrhyw ddatganiadau llafar, bwletinau gwybodaeth, posteri ac arwyddion.*

*Mae holl wasanaethau mewnol ar gyfer staff, gan gynnwys polisiau gwaith a'r gwasanaeth mewnwyd a hunanwasnaeth staff, yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.*

*Bydd disgwyl i bob aelod o staff ddefnyddio fersiynau Cymraeg o feddlwedd cyfrifiadurol.*

*Bydd disgwyl i bob aelod o staff defnyddio llofnod ebost sydd yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr.*

*Bydd unrhyw bolisiau perthnasol sydd yn ymwneud efo hawliau staff, prosesau disgyblu a chwynion, yn amlygu hawliau'r unigolion dan ofynion y Safonau. Bydd y Cyngor yn parchu hawl aelodau staff i arddel dewis iaith, ac yn darparu gwybodaeth bersonol yn yr iaith o'u dewis.*

- 11.1 Disgwylir bod cyfarfodydd mewnol y Cyngor – gan gynnwys cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd rhwng swyddogion i drafod cydweithio – yn cael eu cynnal yn Gymraeg.
- 11.2 Disgwylir bod y rhan fwyaf o gyfathrebu mewnol yn Gymraeg, a bod adroddiadau, rhaglenni gwaith ac ati, yn cael eu llunio yn Gymraeg yn gyntaf.
- 11.3 Os bydd angen rhannu dogfennau gyda chydweithwyr (mewnol neu allanol) nad ydynt yn gallu'r Gymraeg, mae gwasanaeth cyfieithu ar gael.
- 11.4 Bydd mewnwyd y Cyngor yn uniaith Gymraeg, a bwletinau gwybodaeth staff ar ebost yn Gymraeg. Darperir fersiwn Saesneg o'r bwletinau gwybodaeth a'u cynnwys mewn atodiad i'r ebost.
- 11.5 Bydd gwybodaeth ar y mewnwyd yn Gymraeg yn bennaf, gyda gwybodaeth yn cael ei rannu yn Saesneg yn ôl yr angen.
- 11.6 Bydd unrhyw wybodaeth yn ymwneud â materion cyflogaeth ar y hunanwasanaeth staff, ac unrhyw bolisiau neu ganllawiau yn ymwneud â materion allweddol megis

lechyd a Diogelwch ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- 11.7 Bydd modd i bob aelod o staff gyflwyno cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a dylid delio ag unrhyw achos yn newis iaith yr aelod staff.
- 11.8 Bydd gan bob aelod o staff hawl i ymdrin ag unrhyw faterion disgyblu neu unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag amodau gwaith neu berfformiad drwy gyfrwng eu dewis iaith, yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 11.9 Bydd **POB** hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg. Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg, ac ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.
- 11.10 Dylid ystyried defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn sesiynau hyfforddiant, pan fo hynny yn ymarferol bosib, er mwyn galluogi staff sydd yn ddi-hyder eu Cymraeg i gymryd rhan yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnal fel y brif iaith weinyddol fewnol, ac er mwyn rhoi cyfleoedd anffurfiol, cefnogol i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

#### **Cefnogi Staff**

- 11.11 Er mwyn galluogi'r Cyngor i weithredu yn unol â'r polisi hwn, bydd yn ofynnol i staff y Cyngor allu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd at safon sy'n briodol ac er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n llawn.
- 11.12 Mae'r Cyngor yn dymuno cydweithio gyda'i staff er cyrraedd y sefyllfa honno a rhoddir pob cefnogaeth ac anogaeth posib i weithwyr ddatblygu eu hyder a'u gallu yn y Gymraeg. Yn yr un modd mae'r Cyngor yn disgwyl i'r staff fod yn ymroddgar ac i fod yn barod i gydweithio i gyrraedd y nod hwnnw.
- 11.13 Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac fe'u rhyddheir, os bydd angen, i ddysgu neu i loywi eu sgiliau. Bydd y Cyngor yn darparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel ac yn paratoi cyllid ar gyfer hynny.
- 11.14 Cyfrifoldeb Rheolwyr llinell fydd annog staff i fynychu hyfforddiant ac i asesu'r angen am hyfforddiant gloywi neu wella sgiliau o fewn eu timau.
- 11.15 Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith hefyd yn cael ei gynnig i'r holl weithlu, fydd yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg a hanes yr iaith.
- 11.16 Bydd cyfle yn ogystal i unrhyw aelod etholedig sy'n dymuno gwella eu sgiliau ieithyddol ymuno â hyfforddiant iaith y Cyngor
- 11.17 Cyflwynir Gwobr Goffa Dafydd Orwig yn flynyddol i ddysgwyr er mwyn cydnabod ymdrech staff sy'n gwneud cynnydd arbennig yn y deuddeg mis blaenorol. Mae'r Wobr hefyd yn cydnabod gwaith a chyfraniad Mentoriaid iaith.

## **ADRAN 12- HYSBYSEBU SWYDDI A'R BROSES RECRIWTIO**

(Safonau Gweithredu 136, 136A, 137, 137A, 137B, 140)

### **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

*Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor.*

*Rhaid i ofynion ieithyddol pob swydd gael eu hasesu yn erbyn y fframwaith iaith.*

*Bydd cyfweiliadau ar gyfer swyddi yn cael eu cynnal yn Gymraeg.*

*Rhaid cynnal asesiad o sgiliau iaith pob aelod o staff, naill ai wrth iddynt gael eu penodi, neu fel rhan o drefniadau anwytho.*

### **Cyffredinol / Pennu gofynion ieithyddol**

- 12.1 Dylai'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil allweddol hanfodol ar gyfer pob swydd, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd – gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.
- 12.2 Bydd y Rheolwr yw pennu'r union lefel o allu a sgiliau cyfathrebu fydd eu angen ar gyfer cyflawni **holl** ofynion y swydd drwy ddefnyddio Fframwaith Iaith y Cyngor.
- 12.3 Pan fydd swydd yn dod yn wag, bydd rhaid i reolwyr sicrhau bod y gofynion iaith yn gyfredol ac yn addas i ofynion y swydd.
- 12.4 Mae gan y Cyngor Bolisi Recriwtio mewnol, sydd yn rhoi arweiniad pellach i reolwyr ar y broses i'w dilyn wrth benodi, a'r gofynion ieithyddol i'w hystyried ar wahanol gamau.
- 12.5 Ar gyfer swyddi lle mae gofynion iaith yn rhan gwbl greiddiol o gyflawni dyletswyddau'r swydd (e.e. mewn swyddi rheng flaen lle bydd angen delio gyda'r cyhoedd), bydd gofyn i unigolyn fod yn cyrraedd y lefel ofynnol o ddyddiad cychwyn eu cyflogaeth.
- 12.6 Mewn amgylchiadau eraill (e.e. os ydym wedi methu penodi rhywun sydd â'r holl sgiliau gofynnol ar yr ymgais gyntaf) gall fod yn addas penodi unigolion sydd â'r sgiliau eraill perthnasol ac sy'n dangos ymrwymiad i ddatblygu'r sgiliau ieithyddol dros amser. Yn yr achosion hynny, bydd y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn gallu darparu cymorth a threfnu hyfforddiant pwrpasol, a bydd rhaglen ddatblygu addas yn cael ei llunio mewn cytundeb rhwng y Cyngor, fel y cyflogwr, y rheolwr, a deilydd y swydd er mwyn pontio'r bwch rhwng sgiliau'r unigolyn a'r sgiliau sydd yn ofynnol ar gyfer y swydd.

- 12.7 Cyfrifoldeb y rheolwr sydd yn penodi yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad pan fo'n briodol a'u bod yn mynychu unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei adnabod ac yn datblygu eu sgiliau.

### **Hysbysebu**

- 12.8 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddwyieithog, ac eithrio swyddi dysgu sydd yn cael eu hysbysebu yn uniaith Gymraeg.
- 12.9 Bydd pob hysbyseb swydd yn cynnwys brawddeg sydd yn tynnu sylw at weinyddiaeth fewnol cyfrwng Cymraeg y Cyngor a'r angen am sgiliau iaith ymysg y gweithwyr.

*"Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig ei holl wasanaethau yn ddwyieithog. Bydd angen i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ieithyddol sy'n cael ei nodi yn y Manylion Person."*

- 12.10 Anogir pob ymgeisydd i gyflwyno ffurflenni cais yn Gymraeg, neu yn ddwyieithog, fel ffordd o arddangos dealltwriaeth o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor.
- 12.11 Os na fydd yn bosib penodi rhywun gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar ôl hysbysebu unwaith, gellir ystyried derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd a'r gofynion iaith yn syth, ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu.

### **NI FYDD DYNODIAD IAITH Y SWYDD EI HUN YN CAEL EI NEWID O GWBL WRTH AILHYSBYSEBU.**

- 12.12 Mewn amgylchiadau fel hyn, bydd y geiriad sydd yn ymddangos yn yr hysbyseb yn cael ei newid i'r canlynol:

*Rydym yn awyddus i ystyried ceisiadau gan unigolion sydd, o bosib, yn is na lefel iaith y swydd ar hyn o bryd, ond bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i ddysgu neu ddatblygu i lefel iaith y swydd o fewn amserlen resymol. Bydd y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i gyflawni hynny.*

#### **Saesneg:**

*We are eager to consider applications from individuals who, possibly, do not currently reach the language level of the post, but the successful applicant would be required to commit to either learn, or develop language skills to the required level within a reasonable timescale. The Council will provide support to achieve this.*

### **Penodi / Cyfweliadau**

- 12.13 Cynhelir pob cyfweliad yn y Gymraeg, gydag un cwestiwn yn cael ei ofyn yn Saesneg er mwyn rhoi cyfle i'r ymgeisydd arddangos ei sgiliau yn y ddwy iaith.



- 12.14 **Bydd y ddogfennaeth sydd yn gwahodd unigolion i gyfweiliad yn nodi yn glir mai yn y Gymraeg y bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal a bod angen cysylltu gyda'r swyddog priodol petai angen gwneud trefniadau amgen.**
- 12.15 Os bydd aelod o'r panel cyfweld yn digwydd bod ynddi-Gymraeg (e.e. os bydd angen cynrychiolydd allanol am ryw reswm) ni fydd hynny yn effeithio ar hawl yr unigolyn i gyfweiliad Cymraeg a bydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw anghenion cyfieithu.

### **ADRAN 13 - MATERION ERAILL – ATEBOLRWYDD**

#### **Staff**

- 13.1 Disgwylir i bob aelod o staff sydd yn gyflogedig gan y Cyngor ddilyn y polisi hwn. Ar yr un pryd, cydnabyddir nad yw rhai aelodau staff ac adrannau yn atebol i Safonau'r Gymraeg am wahanol resymau. Mae hyn yn cynnwys:
- staff GWE a'r Asiantaeth Cefnffyrdd, a'r Bwrdd Uchelgais, sydd yn gweithredu led braich a dan statws cyd-bwyllgor,
  - staff dysgu ysgolion, sydd yn cael eu cyflogi gan yr ysgolion a'r cyrff llywodraethu yn uniongyrchol
  - Staff etholiadau, sydd yn dod dan gyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau, sydd yn swydd annibynnol o'r Cyngor.
- 13.2 Mae'r Adran Addysg ar Uned Iaith a Chraffu wedi paratoi templed o bolisi iaith i'w ddefnyddio gan ysgolion, sydd yn adlewyrchu yr egwyddorion a'r ymrwymadau cyffredinol yn y polisi hwn i weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau bod hawl y cyhoedd i wasanaethau Cymraeg yn cael ei barchu bob amser. Mae'r polisi hwnnw wedi ei rannu gyda holl gyrff llywodraethu ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, gyda'r gobaith y byddant yn eu mabwysiadu a'u gweithredu.

#### **Gwirfoddolwyr**

- 13.3 Os bydd gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio i gyflenwi gwasanaethau neu weithgareddau ar ran y Cyngor, dylid sicrhau eu bod hwythau yn ymwybodol o'r angen i ddarparu yn ddwyieithog a recriwtio rhai a all gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg ble bo'n bosib. Os oes gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, rhaid i swyddog neu reolwr y Cyngor sicrhau nad yw hyn yn amharu ar allu'r gwasanaeth i gynnig y gweithgaredd yn ddwyieithog.
- 13.4 Os bydd gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio ar gyfer y tymor hir (mwy na gweithgaredd unigol) dylid sicrhau bod elfen o ymwybyddiaeth neu fagu hyder yn y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn unrhyw hyfforddiant rôl.

#### **Aelodau Etholedig**

- 13.5 Mae aelodau etholedig yn rhan o weithdrefnau mewnol y Cyngor, ond nid ydynt yn atebol i'r Safonau fel staff cyflogedig y Cyngor.

- 13.6 Disgwylir iddynt serch hynny arddel a pharchu egwyddorion y Cyngor o ran y Gymraeg ac i fod yn ymwybodol o'r gofynion ar y gwasanaethau a staff y Cyngor.
- 13.7 Cynnigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wyneb yn wyneb ac ar-lein i'r holl aelodau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ymrwymadau'r Cyngor dan Mesur y Gymraeg a fframweithiau a deddfwriaethau perthnasol eraill megis y Ddeddf Llesiant, Deddf Cydraddoded a fframwaith Mwy na Geiriau.
- 13.8 Bydd gan yr Aelodau Etholedig sydd yn eistedd ar Bwyllgor Iaith y Cyngor rôl i oruchwylio a monitro gweithrediad y Safonau a'r Polisi. Bydd yr Uned Iaith a Chraffu ac Adranau'r Cyngor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd fydd yn eu diweddarau ar faterion perthnasol.

#### **ADRAN 14 - MONITRO AC ADRODD**

(Safonau Cadw Cofnodion 147, 148, 149, 150, 151, 152, 153)

##### **Monitro**

- 14.1 Bydd y Cyngor yn adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â'r Safonau Iaith i Gomisiynydd y Gymraeg.
- 14.2 Bydd proses hunanasesu fewnol yn cael ei gweithredu, gdyag adranau yn monitro cydymffurfiaeth ac adrodd ar unrhyw broblemau neu rwystrau i'r Uned Iaith a Craffu.
- 14.3 Bydd camau gweithredu a rhaglen waith ddatblygol yn cael ei llunio ar sail unrhw fylchau a gaiff eu hadnabod er mwyn gweithio yn gyson tuag at wella perfformiad.

##### **Cwynion iaith**

- 14.4 Mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw gŵyn yn erbyn gweinyddiad ein Polisi Iaith fel tystiolaeth ynglŷn â'n perfformiad ac fel cyfle i wella.
- 14.5 Byddwn yn ymdrin â phob cwyn iaith yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor. Yr Uned Iaith a Craffu sydd â chyfrifoldeb dros fonitro cwynion iaith, ac adroddir arnynt yn rheolaidd i'r Pwyllgor Iaith. Bydd yr Uned yn dilyn trefn o adrodd yn ffurfiol ar y cwynion hynny sydd wedi eu hateb yn llawn, ac yn anffurfiol am gwynion sydd yn dal i gael eu datrys. Mae esboniad pellach ar y broses y byddwn yn ei dilyn, a rôl y Comisiynydd, wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. [Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith \(Ilyw.cymru\)](http://Safonau'r_Gymraeg_a_Pholisi_Iaith(Ilyw.cymru))
- 14.6 Bydd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Polisi Iaith hwn neu gydymffurfiad y Cyngor gyda Safonau'r Gymraeg (2015) yn cael eu hadrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

##### **Adolygu**

14.7 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn rheolaidd, a'i addasu yn ôl yr angen.

DRAFT